2	4.1	Dyluniadau	<p>Mae'r pennaeth marchnata wedi gofyn i chi ddylunio gwefan pum tudalen sy'n hysbysebu eu Tref neu Ddinas i dwristiaid. Mae angen i'r dyluniadau ddangos y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynllun pob tudalen • diagram llywio/bwrdd stori • fformat y cynnwys gan gynnwys CSS • unrhyw nodweddion rhyngweithiol • dolen e-bost ar gyfer ymholiadau • delweddau • unrhyw animeiddio. <p>Gellir tynnu'r cynlluniau â llaw neu eu tynnu gan ddefnyddio TGCh.</p>	<p>Mae gwefan pum tudalen wedi'i chynllunio sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynllun pob tudalen (un marc ar gyfer pob tudalen) 	() () () () ()
				<ul style="list-style-type: none"> • diagram llywio/bwrdd stori 	()
				<ul style="list-style-type: none"> • fformat y cynnwys gan gynnwys CSS (un marc y dudalen) 	() () () () ()
				<ul style="list-style-type: none"> • unrhyw nodweddion rhyngweithiol (uchafswm o ddau farc) 	() ()
				<ul style="list-style-type: none"> • dolen e-bost ar gyfer ymholiadau 	()
				<ul style="list-style-type: none"> • delweddau 	()
				<ul style="list-style-type: none"> • unrhyw animeiddio. 	()

Tasg B	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	4.2	Gwefan	<p>Gan ddefnyddio'r cynlluniau a grëwyd yn Nhasg A, adeiladwch wefan weithredol pum tudalen sy'n hysbysebu'r Dref neu'r Ddinas rydych chi wedi'i dewis.</p> <p>Sicrhewch fod eich gwefan orffenedig yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pum tudalen weithredol • unrhyw ddelweddau • llywio rhwng pob tudalen • dwy nodwedd ryngweithiol • dolen e-bost ar gyfer ymholiadau • un animeiddiad. 	Gwefan orffenedig sy'n cynnwys y canlynol:	() () () () ()
				• pum tudalen weithredol (un marc y dudalen)	() () () () ()
				• unrhyw ddelweddau	()
				• llywio llawn (uchafswm pum marc)	() () () () ()
				• dwy nodwedd ryngweithiol e.e. mwyhau delweddau (un marc yr un)	() ()
				• dolen e-bost ar gyfer ymholiadau	()
• un animeiddiad	()				

Tasg C	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	4.3	Asesydd Arsylwi	<p>A'ch gwefan yn gyfan yn awr, gofynnwch i'r asesydd eich arsylwi chi wrth ichi gwblhau'r profion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> profi gweithrediad, agorwch eich gwefan mewn dau borwr gwe gwahanol profwch eich llywio, gan ddangos gweithrediad pob dolen profwch eich nodweddion rhyngweithiol. 	<p>Gwelodd yr arsylwad y profion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> gwefan wedi ei hagor yn iawn mewn dau borwr gwe gwahanol (un marc yr un) 	() ()
				<ul style="list-style-type: none"> pob dolen lywio wedi gweithio (un marc yr un, uchafswm o bum marc) 	() () () () ()
				<ul style="list-style-type: none"> nodweddion rhyngweithiol wedi'u profi (un marc yr un, mwyafswm o ddau marc) 	() ()
Tasg C	Canlyniad Cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	1.1, 3.2	Dalen Ateb	<p>Defnyddiwch y Daflen Ateb a ddarparwyd i gwblhau Tasg Ch</p> <p>Disgrifiwch dair cydran caledwedd a thair cydran meddalwedd sy'n galluogi mynediad i'r</p>	<p>Wedi disgrifio tair elfen caledwedd a thair meddalwedd sy'n galluogi mynediad i'r we (un marc yr un)</p>	() () () () () ()
2	1.2	Dalen Ateb	<p>Esboniwch rôl y protocolau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> TCP/IP gan gynnwys IPv6 HTTP SMTP. 	<p>Wedi esbonio rôl y protocolau canlynol (un marc yr un)</p> <ul style="list-style-type: none"> TCP/IP gan gynnwys IPv6 	()
				<ul style="list-style-type: none"> HTTP 	()
				<ul style="list-style-type: none"> SMTP 	()

Tasg C	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
3	1.3	Dalen Ateb	<p>Esboniwch rôl y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparwr Gwasanaethau Rhyngwrwyd Cofrestrydd enw parth Gwasanaeth lletya gwe. 	Wedi esbonio rôl y canlynol (un marc yr un):	
				<ul style="list-style-type: none"> Darparwr Gwasanaethau Rhyngwrwyd 	()
				<ul style="list-style-type: none"> Cofrestrydd enw parth Gwasanaeth lletya gwe 	()
4	1.4	Dalen Ateb	Nodwch a disgrifiwch yn gryno bedwar math o ffwythianoldeb gwe.	Wedi nodi a disgrifio pedwar math o ffwythianoldeb gwe (un marc yr un)	() () () ()
5	2.1	Dalen Ateb	Esboniwch y defnydd o ddwy iaith Marcio i Fyny wahanol.	Wedi esbonio dwyt iaith Marcio i Fyny wahanol (un marc yr un)	() ()
6	2.2 , 2.3	Dalen Ateb	<p>Eglurwch ddefnydd a ffwythianoldeb:</p> <ul style="list-style-type: none"> Amgylcheddau amser rhedeg y we leithoedd rhaglennu cymwysiadau ar y we Cronfeydd data gan gynnwys SQL PHP. 	Wedi esbonio defnydd a ffwythianoldeb y canlynol: (un marc yr un)	
				<ul style="list-style-type: none"> Amgylcheddau amser rhedeg y we 	()
				<ul style="list-style-type: none"> leithoedd rhaglennu cymwysiadau ar y we 	()
				<ul style="list-style-type: none"> Cronfeydd data gan gynnwys SQL PHP 	()
7	2.4	Dalen Ateb	Nodwch un cyfuniad pentwr nodweddiadol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer datblygu'r we.	Wedi nodi un cyfuniad pentwr nodweddiadol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer datblygu'r we	()
Cyfanswm ()					

Am yr Ymgeisydd

Enw'r ymgeisydd

Rhif cofrestru
City & Guilds

Enw'r ganolfan

Rhif y Ganolfan

Am yr asesiad

Dyddiad
asesu

Amser cychwyn
Amser cwblhau

Nifer y
() a enillwyd

Llwyddo – Rhaid i ymgeiswyr ennill **43** marc i lwyddo

Gradd gyffredinol a enillwyd

Llofnodion

Ymgeisydd
Llofnod

Dyddiad

Enwebai
ansawdd (os
gwnaed sampl)

Dyddiad

Asesydd
Llofnod

Dyddiad

Llofnod
Sicrhawr
Ansawdd
Allanol
(os gwnaed sampl)

Dyddiad

Lefel 3 Datblygu'r we (7513-319) Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Am y ddogfen hon

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 3 Datblygu'r we (7513-319).

Iechyd a diogelwch

Gofynnir i chi ystyried pwysigrwydd arferion gweithio diogel bob amser.

Rydych chi'n gyfrifol am gynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill. Caiff unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel ei atal a rhoddir rhybudd addas iddo. **Ni** chewch chi barhau ag aseiniad os ydych chi'n torri unrhyw un o'r gofynion Iechyd a Diogelwch. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i chi feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Amser a ganiateir

Yr amser a argymhellir ar gyfer yr aseiniad hwn yw **pedair awr**.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Amser a ganiateir: Pedair awr

Trefn Aseiniad:

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys **pedair** tasg:

- Tasg A – Dylunio gwefan pum tudalen
- Tasg B – Adeiladu gwefan pum tudalen weithredol
- Tasg C – Profi gwefan pum tudalen weithredol
- Tasg Ch – Gwybodaeth

Sylwer: Mae Tasg D yn gofyn am atebion ysgrifenedig i nifer o gwestiynau, a rhowch ddigon o amser i gwblhau'r dasg hon o fewn yr aseiniad.

Senario

Fel myfyriwr coleg ar gwrs TG sydd â diddordeb mawr mewn creu gwefannau, rydych wedi cael y cyfle i ddangos eich sgiliau a'ch gwybodaeth.

Gofynnir i chi ddylunio gwefan ymwelwyr ar gyfer tref neu ddinas o'ch dewis. Dylai'r wefan ddarparu gwybodaeth am atyniadau lleol, digwyddiadau diwylliannol, cyfleusterau chwaraeon, adeiladau o wahaniaeth ac ati.

Darllenwch yr holl gyfarwyddiadau'n ofalus a gwnewch y tasgau yn y drefn sy'n cael ei rhoi.

Tasg A – Dyluniwch wefan pum tudalen

- 1 Cyn dylunio eich gwefan mae'n bwysig eich bod yn deall yn union beth sydd ei angen. Yn gyntaf, mae angen i chi gyfweled â'r pennaeth marchnata ar gyfer y Dref neu'r Ddinas a ddewiswyd gennych (yr Asesydd), bydd angen i chi gael y wybodaeth ganlynol o'r cyfweiliad:
 - nod a chynnwys y wefan
 - unrhyw ofynion defnyddwyr
 - trefn amser ar gyfer cwblhau'r wefan.

Ar ôl i chi gael y wybodaeth hon, bydd angen i chi lunio cynllun **byr** sy'n amlinellu'r manylion rydych wedi'u dysgu.

- 2 Mae'r pennaeth marchnata wedi gofyn i chi ddylunio gwefan pum tudalen sy'n hysbysebu eu Tref neu Ddinas i dwristiaid. Mae angen i'r dyluniadau ddangos y canlynol:
 - cynllun pob tudalen
 - diagram llywio/bwrdd stori
 - fformat y cynnwys gan gynnwys CSS
 - unrhyw nodweddion rhyngweithiol
 - dolen e-bost ar gyfer ymholiadau
 - delweddau
 - unrhyw animeiddio.

Gellir tynnu'r cynlluniau â llaw neu eu llunio gan ddefnyddio TGCh

Tasg B - Adeiladwch wefan pum tudalen weithredol

- 1 Gan ddefnyddio'r cynlluniau a grëwyd yn Nhasg A, adeiladwch wefan pum tudalen weithredol sy'n hysbysebu'r Dref neu'r Ddinas a ddewisoch chi.

Sicrhewch fod eich gwefan orffenedig yn cynnwys y canlynol:

- **pum** tudalen weithredol
- unrhyw ddelweddau
- llywio rhwng pob tudalen
- dwy nodwedd rhyngweithiol
- dolen e-bost ar gyfer ymholiadau
- **un** animeiddiad.

Tasg C - Profwch wefan pum tudalen weithredol

- 1 A'ch gwefan yn gyfan yn awr, gofynnwch i'r asesydd eich arsylwi chi wrth ichi gwblhau'r profion canlynol:
 - profi gweithrediad, agor eich gwefan mewn **dau** borwr gwe gwahanol
 - profi eich llywio, gan ddangos gweithrediad pob dolen
 - profi eich nodweddion rhyngweithiol.

Tasg Ch – Gwybodaeth

Defnyddiwch y Daflen Ateb a ddarparwyd i gwblhau Tasg Ch.

- 1 Disgrifiwch **dair** cydran caledwedd a **thair** cydran meddalwedd sy'n galluogi mynediad i'r we.
- 2 Esboniwch rôl y protocolau canlynol:
 - TCP/IP gan gynnwys IPv6
 - HTTP
 - SMTP.
- 3 Esboniwch rôl y canlynol:
 - Darparwr gwasanaethau rhynggrwyd
 - Cofrestrydd enw parth
 - Gwasanaeth lletya gwe.
- 4 Nodwch a disgrifiwch yn gryno **bedwar** math o ffwythianoldeb gwe.
- 5 Esboniwch y defnydd o **ddwy** iaith Marcio i Fyny wahanol.
- 6 Eglurwch ddefnydd a ffwythianoldeb:
 - Amgylcheddau amser rhedeg y we
 - Ieithoedd rhaglennu cymwysiadau ar y we
 - Cronfeydd data gan gynnwys SQL
 - PHP.
- 7 Nodwch **un** cyfuniad pentwr nodweddiadol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer datblygu'r we.

Ar ôl i chi orffen gweithio:

- Llofnodwch bob dogfen uwchben eich enw a labelwch bob cyfrwng storio symudol â'ch enw.
- Rhowch yr holl waith papur a'r cyfryngau storio symudol i'ch asesydd.

Os yw'r aseiniad wedi'i wneud dros fwy nag un cyfnod, rhaid dychwelyd yr holl waith papur a'r cyfryngau symudol i arolygydd y prawf ar ddiwedd pob sesiwn.

Diwedd yr aseiniad

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Lefel 3 Egwyddorion marchnata a gwerthuso (7513-320)

Cynnwys yr aseiniad

Cwmpas yr aseiniad

Mae'r tabl isod yn nodi'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr uned hon.

Tasg	Tystiolaeth	Cyfeirnod Canlyniad dysgu / Meini prawf asesu
A	Ymchwiliwch a datblygwch strategaeth farchnata	1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 1.7, 1.8, 1.9 2.1, 2.3, 2.4, 2.5 3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 3.5, 3.6, 3.7, 3.8 4.1, 4.2
B	Dadansoddiad SWOT gyda nodiadau cyfarfod a rhestr o argymhellion	4.3, 4.4, 4.5, 4.6, 4.7, 4.8, 4.9, 4.10, 4.11

Nodiadau canllaw

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr asesiad ar gyfer Uned 320 Lefel 3 Egwyddorion Marchnata a Gwerthuso.

Rhaid pwysleisio bob amser arferion gweithio diogel, galwadau deddfwriaeth lechyd a Diogelwch leol a chenedlaethol, rheoliadau cysylltiedig a Chodau Ymarfer cysylltiedig â'r diwydiant penodol. Mae gan ymgeiswyr gyfrifoldebau dros gynnal diogelwch eraill yn ogystal â'u diogelwch eu hunain. Rhaid atal unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel a rhoi rhybudd addas iddo. Ni ddylid byth ganiatáu i ymgeiswyr barhau i weithio ar aseiniad os yw wedi torri'r gofynion hyn. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i bob ymgeisydd feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Mae'r nodiadau canllaw canlynol yn cael eu darparu i gynorthwyo aseswyr wrth gynllunio cyflwyno'r aseiniad i ymgeiswyr.

1. Lleoliad a goruchwylio'r aseiniad

- 1.1 Unrhyw leoliad addas yng ngweithle ymgeiswyr neu'r amgylchedd dysgu. Os caiff ei gwblhau yn y gweithle, dylai'r ymgeisydd gwblhau datganiad i dystio mai eu gwaith eu hunain yw'r holl waith ac i nodi ble y cwblhawyd y gwaith. Rhaid i'r datganiad hwn hefyd gael ei lofnodi gan dyst addas e.e. rheolwr llinell. Mae copi o'r ffurflen hon ar gael ar wefan City & Guilds.
- 1.2 Rhaid cwblhau pob rhan o'r aseiniad, ac eithrio unrhyw ofynion ymchwil a bennir yn Adran 3 isod, o dan oruchwyliaeth. Gall y goruchwyliwr fod yn rheolwr llinell yr ymgeisydd (neu'n debyg), tiwtor neu asesydd. Ni chaniateir symud neu gwblhau unrhyw rannau o'r aseiniad i ffwrdd o'r amgylchedd dan oruchwyliaeth. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl weithgareddau'n cael eu cwblhau gyda'r asesydd, neu oruchwilydd dynodedig arall, yn bresennol.
- 1.3 Cyn cymryd yr aseiniad hwn, dylid rhoi i ymgeiswyr yr wybodaeth a geir yn Adran 3, isod. **Ni** chaiff ymgeiswyr yr aseiniad ei hun cyn yr asesiad. **Ni** chaiff ymgeiswyr fynediad i'r meini prawf marcio ar unrhyw adeg.

2. Cyfarpar angenrheidiol ar gyfer yr aseiniad hwn

- 2.1 Argymhellir bod ymgeiswyr yn cael mynediad i feddalwedd prosesu geiriau, argraffydd a llungopiwr, ond nid yw hyn yn orfodol.
- 2.2 Gall gwaith yr ymgeiswyr fod naill ai'n ysgrifenedig neu gael ei gynhyrchu'n electronig.
- 2.3 E-bortffolio - gall portffolios ymgeiswyr gynnwys canlyniadau'r asesu ond ni ddylent gynnwys Deunyddiau Asesu City & Guilds (fel tasgau asesu neu gwestiynau neu sgriptiau ymgeiswyr wedi'u marcio, oni bai y nodir fel arall).

3. Nodiadau ar gynnwys yr aseiniad hwn

- 3.1 Gellir cymryd yr aseiniad hwn fel rhan o weithgarwch gwaith go iawn, mewn amgylchedd gwaith realistig neu fel rhan o unrhyw weithgaredd dysgu addas megis gweithdy hyfforddi. Rhaid i aseiniadau a gyflwynir fod yn waith i'r ymgeisydd unigol.
- 3.2 Os nad yw'r ymgeisydd wedi'i leoli yn y gwaith neu os nad yw'n gallu seilio'r aseiniad ar eu gweithle, gallant ddefnyddio'r senario a roddir.

4. Tystiolaeth a chofnodi

- 4.1 Dylid cadw'r holl waith a gynhyrchir gan yr ymgeisydd gyda'i gilydd. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi ei enw a'i rif cofrestru ar bob darn o waith.
- 4.2 Bydd angen i ymgeiswyr allu trefnu eu gwybodaeth yn glir ac yn gydlynol.
- 4.3 Caniateir i ymgeiswyr airbrosesu eu gwaith.

5. Ystyriaethau amser

- 5.1 Argymhellir lwfans amser o bedair awr ar gyfer cwblhau'r aseiniad, a ddylai ddigwydd o dan amodau dan oruchwyliaeth. Felly, dylid cynnal yr holl weithgareddau ymchwil cyn y sesiwn a'u heithrio o'r lwfans amser. Nid oes angen cwblhau'r aseiniad hwn mewn un sesiwn a gellir ei gwblhau fesul tasg er bod yn rhaid i'r ymgeisydd gwblhau log amser, gan gofnodi'r amseroedd a gymerwyd i gwblhau'r aseiniad.
- 5.2 Os caiff aseiniad ei gwblhau dros sawl sesiwn, rhaid i'r gwaith gael ei roi fesul tasg a rhaid i'r tiwtor/asesydd gasglu'r gwaith a gynhyrchwyd a'r deunydd asesu ar ddiwedd pob sesiwn a'u cadw'n ddiogel.
- 5.3 Os bydd ymgeisydd yn methu tasg, dylent gymryd yr un aseiniad amgen. Argymhellir y dylai isafswm o saith diwrnod fod wedi mynd heibio cyn y gall ymgeisydd aflwyddiannus gymryd yr un aseiniad. Dylid rhoi hyfforddiant/adborth pellach i ymgeiswyr cyn i aseiniad gael ei ail-gymryd.

6. Gwybodaeth ychwanegol

- 6.1 Mae'r atebion a roddir yn y meini prawf marcio a graddio yn arwydd o'r math o atebion y dylai ymgeiswyr eu rhoi. Nid ydynt yn derfynol.
- 6.2 Dylai tiwtor/aseswyr ddefnyddio eu barn broffesiynol ar safon cyflwyno'r gwaith a gyflwynir gan yr ymgeisydd.

Lefel 3 Egwyddorion marchnata a gwerthuso (7513-320)

Meini prawf marcio a graddio

Meini prawf graddio

Dylid ticio pob un o'r pwyntiau canlynol os ydynt wedi'u cyflawni'n foddhaol a rhoi croes os nad ydynt. Os nad yw pwynt yn berthnasol dylid rhoi croes drwyddo a nodi'r rhesymau pam nad yw'n berthnasol. **Mae'r atebion a roddir yn y meini prawf marcio a graddio yn arwydd o'r math o atebion y dylai ymgeiswyr eu rhoi. Nid ydynt yn derfynol; dylid defnyddio barn broffesiynol. Enghreifftiau yn unig yw pob achos a ddyfynnir oni nodir fel egwyddor sefydledig.** Dylid rhoi credyd os cyfeirir at achosion priodol eraill. Mae darpariaeth hefyd i rai meini prawf dewisol gael eu dyfarnu mewn achosion priodol. Dylai'r rhain gael eu dyfarnu'n unig lle cânt eu cyfiawnhau gan waith ymgeisydd.

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
A		Strategaeth farchnata gyda nodiadau ymchwil manwl wedi'i chynhyrchu Diffiniwch y term Segment Marchnad.	<input type="checkbox"/>	
	1.1	Esboniodd bwysigrwydd diffinio segment y farchnad. <i>Atebion posibl:</i> <ul style="list-style-type: none">• nodi anghenion cwsmeriaid posibl• dealltwriaeth o ymddygiad y farchnad• dealltwriaeth o faint marchnad bosibl.	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/>

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	1.2	<p>Esboniodd y gwahaniaeth rhwng segment marchnad a dosbarthiad cwsmeriaid, gan roi un enghraifft o segment marchnad ac un enghraifft o ddosbarthiad cwsmeriaid.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <p>Segment marchnad</p> <ul style="list-style-type: none"> • oed • rhyw • crefydd • diwylliant • incwm • dull o fyw. <p>Dosbarthiad cwsmeriaid</p> <ul style="list-style-type: none"> • cwsmeriaid busnes • cwsmeriaid hamdden. 		<p style="text-align: center;">○</p> <p style="text-align: center;">○</p>
	1.3	<p>Nododd nodweddion, cymhellion ac ymddygiad cwsmeriaid targed posibl</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • trwy eu pwrcasiadau • trwy ddadansoddiad o ymddygiad • eu pŵer gwneud penderfyniadau. 		<p style="text-align: center;">○</p>

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	1.4	<p>Esboniodd sut i glystyru cwsmeriaid sydd â nodweddion tebyg.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • yn helpu i ffurfio'r cynllun marchnata • canllaw ar brisio • yn rhoi ffocws i'r strategaeth farchnata. 		○
	1.5	<p>Cadarnhawyd bod segmentau arfaethedig yn real, yn benodol, yn hyfyw a bod eu prynu'n fesuradwy.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • wedi cynnwys cyfiawnhad byr bod y segment/segmentau marchnad a ddewiswyd yn real, yn nodedig, yn hyfyw a bod eu pŵer prynu yn fesuradwy. 		○
	1.6	<p>Esboniodd sut i werthuso proffidioldeb a sefydlogrwydd segment y farchnad.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <p>wedi cynnwys esboniad o sut i werthuso'r segmentau marchnad a ddewiswyd o ran proffidioldeb a sefydlogrwydd, ynghyd ag ystadegau realistig i gefnogi'r dewis.</p>		○
	1.7	<p>Wedi disgrifio sut y gall ystod o gynhyrchion neu wasanaethau apelio at wahanol segmentau marchnad.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <p>wedi cynnwys sut y gall tri neu ragor o wahanol gynhyrchion neu wasanaethau apelio at wahanol grwpiau o unigolion drwy segmentu (e.e. Graffigol, Demograffig, Ymddygiadol, Seicograffig).</p>		○

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	1.8	<p>Esboniodd ddau o'r ysgogwyr a/neu'r rhwystrau sy'n dylanwadu ar ymddygiad cwsmeriaid.</p> <p><i>Atebion posibl:</i> wedi cwmpasu'n gryno ddau o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dyheadau • dull o fyw • incwm • amser • statws • teulu. 		<p>○</p> <p>○</p>
	1.9	<p>Esboniodd dri defnydd o Reoli Cysylltiadau Cwsmeriaid.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • CRM yn cynnig gwybodaeth am gwsmeriaid presennol a'u pryniannau • yn caniatáu i sefydliad asesu tueddiadau • yn caniatáu i sefydliad asesu newidiadau marchnad. 		<p>○</p> <p>○</p> <p>○</p>
		Cyfleoedd marchnad wedi'u hasesu.	<input type="checkbox"/>	
	2.1	<p>Wedi disgrifio'r ffactorau economaidd ac ymddygiad prynwyr y mae angen eu hystyried.</p> <p><i>Atebion posibl:</i> wedi cyfeirio at ffactorau ymddygiadol economaidd a phrynwyr mewn perthynas â'r cynnyrch/gwasanaeth a ddewiswyd y mae'n rhaid eu hystyried ac roedd yn cynnwys un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tymhorol • dirwasgiad • trethiant • lefelau cyflogaeth 		<p>○</p>

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	2.2	<p>Wedi disgrifio'r ffactorau diwylliannol sy'n debygol o effeithio ar ganfyddiad cwsmeriaid o'r cynnyrch/gwasanaeth a pherfformiad gwerthiant.</p> <p><i>Ateb posibl:</i> wedi cynnwys cyfeiriad at un o'r ffactorau diwylliannol a oedd yn debygol o effeithio ar ganfyddiad cwsmeriaid o'r cynhyrchion/gwasanaeth a'r perfformiad gwerthu a ddewiswyd a allai fod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyflenwad a galw • demograffeg. 		<input type="radio"/>
	2.3	<p>Esboniodd sut i nodi a) y cyfleoedd a b) y bygythiadau yn y marchnadoedd newydd ac ar gyfer y cynnyrch/gwasanaeth.</p> <p><i>Atebion posibl:</i> a) cyfleoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • llenwi bwlch yn y farchnad • cynnyrch/gwasanaeth arloesol. • newydd i'r segment marchnad penodol. <p>b) bygythiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • cystadleuaeth • rhy ddrud • segment anghywir y farchnad wedi'i ddewis. 		<input type="radio"/> <input type="radio"/>
	2.4	<p>Esboniodd sut y gallai gweithgarwch cystadleuwyr a darpar gystadleuwyr effeithio ar berfformiad gwerthiant rhagamcanol.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • lleihau'r farchnad bosibl • cyflwyno cynnyrch/gwasanaeth tebyg • cynnig disgowntiau • prisiau is 		<input type="radio"/>

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	2.5	<p>Esboniodd sail yr argymhellion i fanteisio ar gyfleoedd newydd yn y farchnad.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • ymchwil • nodi bylchau yn y farchnad • galw cwsmeriaid • cadw i fyny â'r dechnoleg /tueddiadau diweddaraf. 		<input type="radio"/>
	3.1	<p>Strategaeth farchnata</p> <p>Wedi disgrifio'r pynciau y dylid mynd i'r afael â hwy yn eich strategaeth farchnata.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • cynllun marchnata • amgylcheddau mewnol ac allanol • cymysgedd marchnata • datganiad cenhadaeth • amcan marchnata • ymchwil • prisio. 		<input type="radio"/> <input type="radio"/> <input type="radio"/> <input type="radio"/> <input type="radio"/> <input type="radio"/> <input type="radio"/>
	3.2	<p>Esboniodd ddefnyddio'r dadansoddiad o'r farchnad i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth farchnata.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <p>wedi cynnwys cyfeiriad at y ffactorau mewnol ac allanol, cwsmeriaid a marchnadoedd a chystadleuwyr. Cafodd hyn ei gysylltu'n glir ag adrannau perthnasol y strategaeth farchnata i gefnogi'r penderfyniadau a wnaed.</p>		<input type="radio"/>
	3.3	<p>Esboniodd sut i werthuso risgiau i gyflawni amcanion.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <p>yn dibynnu ar y cynnyrch/gwasanaeth a ddewiswyd ar ymchwil a wnaed gyda chanfyddiadau'r ymchwil hon. Roedd yr amcanion yn rhai CAMPUS/SMART.</p>		<input type="radio"/>

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	3.4	<p>Wedi disgrifio sut i ragweld gwerthiant yn ôl cynnyrch a/neu wasanaeth.</p> <p><i>Atebion posibl:</i> yn dibynnu ar y cynnyrch/gwasanaeth a ddewiswyd ar ymchwil a wnaed gyda chanfyddiadau'r ymchwil hon. Roedd yr amcanion yn rhai CAMPUS/SMART.</p>		○
	3.5	<p>Esboniodd sut i gyflwyno'r strategaeth farchnata, gan gynnwys un o bob un o'r canlynol: (3.5)</p> <p>a) nodau b) amcanion c) camau ch) atebolrwydd d) adnoddau dd) cyllidebau a rhagolygon.</p> <p><i>Atebion posibl:</i> yn dibynnu ar y cynnyrch/gwasanaeth a ddewiswyd ar ymchwil a wnaed gyda chanfyddiadau'r ymchwil hon. Roedd yr amcanion yn rhai CAMPUS/SMART.</p>		○○ ○○ ○○
	3.6	<p>Esboniodd bwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r strategaeth farchnata.</p> <p><i>Atebion posibl:</i> yn dibynnu ar y cynnyrch/gwasanaeth a ddewiswyd ar ymchwil a wnaed gyda chanfyddiadau'r ymchwil hon. Roedd yr amcanion yn rhai CAMPUS/SMART.</p>		○

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	3.7	<p>Esboniodd arwyddocâd teyrngarwch cwsmeriaid i gyflawni'r strategaeth farchnata gan roi dau ffyrdd o wneud hyn.</p> <p><i>Atebion posibl:</i> arwyddocâd teyrngarwch cwsmeriaid yw cynyddu gwerthiant, annog ailadrodd busnes, annog y cwsmeriaid i wneud y brand y dewis cyntaf yn hytrach na chystadleuwyr.</p> <p>Dyma ffyrdd posibl o wneud hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynigion arbennig • disgowntiau • cardiau teyrngarwch • lefel uwch o wasanaeth. 		<input type="radio"/> <input type="radio"/>
	3.8 4.1 4.2	<p>Gosododd a) un dangosydd perfformiad a b) un trefniant gwerthuso sy'n gallu mesur enillion ar fuddsoddiad.</p> <p><i>Atebion posibl:</i> a) dangosydd perfformiad</p> <ul style="list-style-type: none"> • ffigurau gwerthiant • elw • trosiant. <p>b) trefniant gwerthuso:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dadansoddiad cost a budd • arolwg boddhad cwsmeriaid. 		<input type="radio"/> <input type="radio"/>
I basio Tasg A, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf a ddangosir fel <input type="checkbox"/> a 35 o'r meini prawf a ddangosir fel <input type="radio"/> .			Llwyddo / Methu Nifer <input type="radio"/> _____	

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
B		Cynhyrchwyd dadansoddiad SWOT	<input type="checkbox"/>	
	4.3	Esboniodd gryfderau a gwendidau gwahanol ddulliau gwerthuso, gan roi un cryfder ac un cryfder dau dull gwahanol. <i>Atebion posibl:</i> bydd hyn yn dibynnu ar y dulliau a ddewiswyd.		<input type="radio"/> <input type="radio"/> <input type="radio"/> <input type="radio"/>
	4.4	Wedi disgrifio sut i adnabod tueddiadau a themâu o ddata gwerthuso. <i>Atebion posibl:</i> roedd nodiadau'r cyfarfod yn cefnogi'r tueddiadau a'r themâu a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad SWOT.		<input type="radio"/>
	4.5	Wedi disgrifio sut i sicrhau dibynadwyedd a dilysrwydd data gwerthuso. <i>Atebion posibl:</i> cofnod clir a chywir o'r cyfarfod wedi'i osod allan yn rhesymegol gyda nodiadau i sicrhau dehongliad cywir wrth gynhyrchu dadansoddiad SWOT.		<input type="radio"/>
	4.6	Esboniodd sut i sicrhau lefel dderbyniol o hyder ystadegol. <i>Atebion posibl:</i> ymgyngori digonol a dehongli cywir yn y dadansoddiad SWOT.		<input type="radio"/>
	4.7	Esboniodd sut i fynd i'r afael â materion allweddol a ddatgelwyd drwy werthuso. <i>Atebion posibl:</i> wedi cynhyrchu rhestr o argymhellion a ddeilliodd o'r gwerthusiad a allai fod yn ddiwygiadau i'r data, dangosyddion perfformiad allweddol neu gyllidebau.		<input type="radio"/>

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	4.8	Wedi cyfiawnhau ac esbonio argymhellion a chasgliadau gyda thystiolaeth gysylltiedig. <i>Atebion posibl:</i> Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r cyfarfod.		<input type="radio"/>
	4.9	Esboniodd y dadansoddiad effaith yn y broses werthuso. <i>Atebion posibl:</i> asesu a yw'r strategaeth wedi cyflawni ei chanlyniad.		<input type="radio"/>
	4.10	Esboniodd bwysigrwydd marchnata i gyflawni amcanion a strategaethau busnes. <i>Atebion posibl:</i> <ul style="list-style-type: none"> • rhoi gwybod i gwsmeriaid am gynhyrchion/gwasanaethau • yn cyfrannu i gynhyrchu reffeniw • yn hyrwyddo delwedd gadarnhaol y sefydliad. 		<input type="radio"/>
	4.11	Wedi disgrifio'r cysylltiadau rhwng cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a strategaethau marchnata. <i>Atebion posibl:</i> wedi cynnwys cyfeiriad at gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol megis: <ul style="list-style-type: none"> • cyfrifoldeb y gymuned • masnach foesegol. 		<input type="radio"/>
I basio Tasg B, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf a ddangosir fel <input type="checkbox"/> ac 8 maen a ddangosir fel <input type="radio"/> .			Llwyddo / Methu Nifer <input type="radio"/> _____	

Lefel 3 Egwyddorion marchnata a gwerthuso (7513-320)

Dalen marcio aseiniad

Enw'r ymgeisydd

Rhif yr ymgeisydd

Enw'r Ganolfan

Rhif y Ganolfan

Tasg		Gradd a enillwyd
A	Ymchwiliwch a datblygwch strategaeth	Llwyddo/
B	Cynhyrchwch ddatblygiad SWOT gyda nodiadau cyfarfod a rhestr o argymhellion	Llwyddo/ Methu

Rhaid pasio pob tasg i ganiatáu i radd gael ei hawlio.

Rwy'n gallu cadarnhau mai fy ngwaith fy hun yw'r dystiolaeth sydd wedi'i rhestru ar gyfer yr uned hon a'i fod wedi ei wneud yn yr amodau a'r cyd-destun a nodwyd yn y fanyleb asesu.

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cyflawni holl ofynion yr uned hon gyda'r dystiolaeth a restrir a bod yr asesiad wedi ei gynnal o dan yr amodau a'r cyd-destun penodol, a'i fod yn ddilys, yn awthentig, yn ddibynadwy, yn gyfredol ac yn ddigonol.

Llofnod tiwtor/asesydd

Dyddiad

Llofnod Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd (os gwnaed sampl)

Dyddiad

Llofnod Ymgynghorydd Cymhwyster (os gwnaed sampl)

Dyddiad

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Cynghorir chi i ddarllen yr holl gyfarwyddiadau'n ofalus cyn dechrau'r gwaith a gwirio gyda'ch Asesydd/Tiwtor, os oes angen, i sicrhau eich bod wedi deall y broses yn llawn.

Rhaid i chi, bob amser, gadw at yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch perthnasol.

Iechyd a diogelwch

Rhaid pwysleisio ar bob adeg bwysigrwydd arferion gweithio diogel, galwadau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; (HASWA) neu reoliadau iechyd a diogelwch cenedlaethol a/ neu leol, rheoliadau cysylltiedig a Chodau Ymarfer cysylltiedig â diwydiant penodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwydddebau oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd (UE) lle y bo'n briodol. Mae gan ymgeiswyr gyfrifoldebau dros gynnal diogelwch eraill yn ogystal â'u diogelwch eu hunain. Rhaid atal unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel a rhoi rhybudd addas iddo. Ni ddylid byth ganiatáu i ymgeiswyr barhau aseiniad os yw wedi torri'r gofynion hyn. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i bob ymgeisydd feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Os na all ymgeiswyr gwblhau'r cyflwyniad yn seiliedig ar eu gweithle eu hunain, yna dylai ymgeiswyr ymchwilio i weithleoedd eraill, fel y ganolfan lle darperir hyfforddiant, lleoliad profiad gwaith, coleg, llyfrgell gyhoeddus neu ganolfan iechyd a ffitrwydd. **Rhaid** cytuno ar hyn gyda'r asesydd cyn i'r ymgeisydd ddechrau'r ddogfen.

Mae amser o **bedair awr** wedi'i argymhell ar gyfer yr aseiniad hwn.

- Dylech geisio cwblhau pob tasg.
- Gallwch gyfeirio at y polisi neu weithdrefnau yn eich sefydliad eich hunain.
- Gellir defnyddio geiriaduron.

Lefel 3 Egwyddorion marchnata a gwerthuso (7513-320)

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Amser a ganiateir: Pedair awr

Cyflwyniad

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys **dwy** dasg.

Tasg A

Rhaid cyflwyno'r Strategaeth Farchnata gan gynnwys y Cynllun Marchnata mewn **un** ddogfen y gellir ei chynhyrchu â llaw neu'n electronig. Gall hyn fod wedi ei hargraffu neu ar ffurf electronig.

Rhaid i ymchwil a nodiadau ategol gyd-fynd â'r ddogfen.

Tasg B

Gellir cynhyrchu'r dadansoddiad SWOT â llaw neu'n electronig a dylai gynnwys nodiadau ategol a rhestr o argymhellion.

Nodiadau

- Ar ôl gorffen yr aseiniad hwn, rhowch yr holl waith papur i'ch asesydd/tiwtor.
- Sicrhewch fod eich enw a'ch rhif cofrestru ar bob dogfen.

Tasg A Ymchwilio a datblygu strategaeth farchnata

Ymchwiliwch a datblygwch strategaeth farchnata ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth newydd y mae eich sefydliad yn ei gynnig a chynhwyswch nodiadau manwl ar yr ymchwil. Os na allwch ddatblygu strategaeth farchnata yn seiliedig ar eich gweithle eich hun, yna dylech ymchwilio i weithleoedd eraill, fel y ganolfan lle darperir hyfforddiant, lleoliad profiad gwaith neu goleg.

Rhaid i'r strategaeth farchnata gynnwys yr adrannau a'r cynnwys canlynol:

- Diffinio'r term Segment Marchnad
 - pwysigrwydd diffinio segment y farchnad
 - y gwahaniaeth rhwng segment marchnad a dosbarthiad cwsmeriaid, gan roi **un** enghraifft **un** enghraifft o ddosbarthiad cwsmeriaid
 - sut i nodi nodweddion, cymhellion ac ymddygiad cwsmeriaid targed posibl
 - sut i glystyru cwsmeriaid sydd â nodweddion tebyg
 - sut i gadarnhau bod segmentau arfaethedig yn real, yn nodedig, yn hyfyw a bod eu pŵer prynu'n fesuradwy
 - sut i werthuso proffidioldeb a sefydlogrwydd segment y farchnad
 - sut y gall ystod o gynnyrch neu wasanaethau apelio at wahanol segmentau marchnad
 - **da**u gymhellydd a/neu rwystrydd sy'n dylanwadu ar ymddygiad cwsmeriaid
 - **tri** defnydd o Reoli Cysylltiadau Cwsmeriaid.
- Asesu cyfleoedd marchnad
 - y ffactorau economaidd ac ymddygiad prynwyr y mae angen eu hystyried
 - y ffactorau diwylliannol sy'n debygol o effeithio ar ganfyddiad cwsmeriaid o'r cynnyrch/gwasanaeth a pherfformiad gwerthiant
 - sut i nodi:
 - cyfleoedd
 - bygythiadau i'r marchnadoedd newydd ac i'r cynnyrch/gwasanaeth.
 - sut y gallai cystadleuwyr a darpar gystadleuwyr effeithio ar berfformiad rhagamcanol gwerthiannau
 - esboniad o sail yr argymhellion i fanteisio ar gyfleoedd newydd yn y farchnad.
- Strategaeth farchnata
 - y pynciau y dylid mynd i'r afael â hwy yn eich strategaeth farchnata
 - y defnydd o ddadansoddi'r farchnad i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth farchnata
 - sut i werthuso risgiau i gyflawni amcanion
 - sut i ragweld gwerthiant yn ôl cynnyrch a/neu wasanaeth
 - sut i gyflwyno eich strategaeth farchnata, gan gynnwys **un** o **bob un** o'r canlynol:
 - a) nodau
 - b) amcanion
 - c) camau
 - ch) atebolrwydd
 - d) adnoddau
 - dd) cyllidebau a rhagolygon.
 - pwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu eich strategaeth farchnata
 - arwyddocâd teyrngarwch cwsmeriaid i gyflawni'r strategaeth farchnata gan roi **dwy** ffordd o wneud hyn
 - un dangosydd perfformiad ac un trefniant gwerthuso sy'n gallu mesur enillion ar fuddsoddiad.

Tasg B Cynhyrchu dadansoddiad SWOT

Cynhyrchwch ddadansoddiad SWOT i werthuso effeithiolrwydd posibl y strategaeth farchnata a gynhyrchir yn Nhasg A. Dylai hyn gael ei wneud mewn **tri** cham.

Yn gyntaf cynhaliwch gyfarfod / sesiwn tanio syniadau gyda phartïon â diddordeb. Gallai'r rhain fod yn rheolwr llinell, cydweithwyr a darpar randdeiliaid, neu eich tiwtor, cyd-fyfyrywyr a darpar randdeiliaid. Dylai fod rhwng dau a phump o bobl yn cymryd rhan. Dylid cymryd digon o nodiadau yn y cyfarfod i ganiatáu i ddadansoddiad SWOT gael ei gynhyrchu. Bydd angen cyflwyno'r nodiadau hyn i'w hasesu, ynghyd â'r dadansoddiad SWOT.

Yn ail, cynhyrchwch ddadansoddiad SWOT. Mae templed wedi'i ddarparu i chi ei ddefnyddio neu efallai y byddwch yn defnyddio eich un eich hun.

Yn drydydd, cynhyrchwch restr o argymhellion a luniwyd yn dilyn y gwerthusiad gan ddadansoddiad SWOT.

Rhaid i'r nodiadau, y grid a'r rhestr o argymhellion gynnwys y canlynol:

- cryfderau a gwendidau gwahanol ddulliau gwerthuso, gan roi **un** cryfder ac **un** gwendid **dau** dull gwahanol.
- disgrifiad, gan nodi tueddiadau a themâu o ddata gwerthuso
- sut i sicrhau dibynadwyedd a dilysrwydd data gwerthuso
- sut i gyflawni lefel dderbyniol o hyder ystadegol
- sut i fynd i'r afael â materion allweddol a ddatgelwyd drwy werthuso
- cyfiawnhau'r argymhellion a chasgliadau gyda thystiolaeth gysylltiedig
- esboniad o ddadansoddi effaith yn y broses werthuso
- esboniad o bwysigrwydd marchnata i gyflawni amcanion busnes a strategaethau
- disgrifiad o'r dolenni rhwng cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a strategaethau marchnata.

Lefel 3 Egwyddorion marchnata a gwerthuso (7513-320)
Templed ymgeisydd

Enw'r ymgeisydd

Rhif yr ymgeisydd

Enw'r ganolfan

Rhif y ganolfan

Cryfderau	Gwendidau
Cyfleoedd	Bygythiadau

Llofnod tiwtor/asesydd

Dyddiad

Llofnod Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd (os gwnaed sampl)

Dyddiad

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Lefel 3 Egwyddorion marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid (7513-328)

Cynnwys yr aseiniad

Cwmpas yr aseiniad

Mae'r tabl isod yn nodi'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr uned hon.

Tasg	Tystiolaeth	Cyfeirnod Canlyniad Dysgu/ meini prawf asesu
A	Cyflwyniad sleidiau gyda nodiadau	1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 1.7 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5
B	Siart sefydliadol	2.6
C	Adroddiad	3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 3.5, 3.6, 3.7

Lefel 3 Egwyddorion marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid (7513-328)

Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio

Nodiadau canllaw

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr asesiad ar gyfer Lefel 3 Egwyddorion marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid (7513-328).

Rhaid pwysleisio bob amser arferion gweithio diogel, galwadau deddfwriaeth lechyd a Diogelwch leol a chenedlaethol, rheoliadau cysylltiedig a Chodau Ymarfer cysylltiedig â'r diwydiant penodol. Mae gan ymgeiswyr gyfrifoldebau dros gynnal diogelwch eraill yn ogystal â'u diogelwch eu hunain. Rhaid atal unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel a rhoi rhybudd addas iddo. Ni ddylid byth ganiatáu i ymgeiswyr barhau i weithio ar aseiniad os yw wedi torri'r gofynion hyn. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i bob ymgeisydd feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Mae'r nodiadau canllaw canlynol yn cael eu darparu i gynorthwyo aseswyr wrth gynllunio cyflwyno'r aseiniad i ymgeiswyr.

1. Lleoliad a goruchwyllo'r aseiniad

- 1.1 Unrhyw leoliad addas yng ngweithle ymgeiswyr neu'r amgylchedd dysgu. Os caiff ei gwblhau yn y gweithle, dylai'r ymgeisydd gwblhau datganiad i dystio mai eu gwaith eu hunain yw'r holl waith ac i nodi ble y cwblhawyd y gwaith. Rhaid i'r datganiad hwn gael ei lofnodi gan dyst addas, e.e. rheolwr llinell. Mae copi o'r ffurflen hon ar gael ar wefan City & Guilds.
- 1.2 Rhaid cwblhau pob rhan o'r aseiniad, ac eithrio unrhyw ofynion ymchwil a bennir yn Adran 3 isod, o dan oruchwyliaeth. Gall y goruchwylwr (neu berson tebyg), tiwtor neu asesydd fod yn rheolwr llinell yr ymgeisydd. Ni chaniateir symud neu gwblhau unrhyw rannau o'r aseiniad i ffwrdd o'r amgylchedd dan oruchwyliaeth. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl weithgareddau'n cael eu cwblhau gyda'r asesydd, neu oruchwyllydd dynodedig arall, yn bresennol.
- 1.3 Cyn cymryd yr aseiniad hwn, dylid rhoi i ymgeiswyr yr wybodaeth a geir yn Adran 3, isod. **Ni** chaiff ymgeiswyr yr aseiniad ei hun cyn yr asesiad. **Ni** chaiff ymgeiswyr fynediad i'r meini prawf marcio ar unrhyw adeg.

2. Cyfarpar angenrheidiol ar gyfer yr aseiniad hwn

- 2.1 Argymhellir bod ymgeiswyr yn cael mynediad i feddalwedd prosesu geiriau, argraffydd a llungopiwr, ond nid yw hyn yn orfodol.
- 2.2 Gall gwaith yr ymgeisydd fod wedi'i ysgrifennu â llaw neu ei gynhyrchu'n electronig.
- 2.3 E-bortffolio - gall portffolios ymgeiswyr gynnwys canlyniadau'r asesu ond ni ddylent gynnwys Deunyddiau Asesu City & Guilds (fel tasgau asesu neu gwestiynau neu sgriptiau ymgeiswyr wedi'u marcio, oni bai y nodir fel arall).
- 2.4 Cofnodi llafar ar gyfer cwestiynau ateb byr yn unig – efallai y byddai'n well gan diwtoriaid/aseswyr ofyn y cwestiynau ar lafar a chofnodi ymatebion ymgeiswyr unigol. Os caiff dyfais cofnodi electronig ei defnyddio:
 - rhaid i'r tiwtor/asesydd a'r ymgeisydd nodi pwy ydynt ar ddechrau'r recordiad
 - caiff y cwestiynau eu gofyn a rhaid recordio ymatebion yr ymgeisydd yn glir
 - rhaid cadw a ffeilio'r ffeiliau data mewn modd sy'n sicrhau eu diogelwch a'u rhwyddineb adalw at ddibenion dilysu.

Nodiadau ar gynnwys yr aseiniad hwn

- 3.1 Gellir cymryd yr aseiniad hwn fel rhan o weithgarwch gwaith go iawn, mewn amgylchedd gwaith realistig neu fel rhan o unrhyw weithgaredd dysgu addas megis gweithdy hyfforddi. Rhaid i aseiniadau a gyflwynir fod yn waith yr ymgeisydd unigol.
- 3.2 Os nad yw'r ymgeisydd wedi'i leoli yn y gwaith, dylai'r tiwtor/asesydd mewn trafodaeth â'r ymgeisydd ddewis sefydliad addas a fydd yn galluogi'r ymgeisydd i gyflawni gofynion y dasg.

3. Tystiolaeth a chofnodi

- 4.1 Dylid cadw'r holl waith a gynhyrchir gan yr ymgeisydd gyda'i gilydd. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi ei enw a'i rif cofrestru ar bob darn o waith.
- 4.2 Bydd angen i ymgeiswyr allu trefnu eu gwybodaeth yn glir ac yn gydllynol.
- 4.3 Caniateir i ymgeiswyr airbrosesu eu gwaith.

4. Ystyriaethau amser

- 5.1 Argymhellir lwfans amser a argymhellir o **dair awr** ar gyfer cwblhau'r aseiniad, a ddylai ddigwydd o dan oruchwyliaeth. Felly, dylid cynnal yr holl weithgareddau ymchwil cyn y sesiwn a'u heithrio o'r lwfans amser. Nid oes angen cwblhau'r aseiniad hwn mewn un sesiwn a gellir ei gwblhau fesul tasg er bod yn rhaid i'r ymgeisydd gwblhau log amser, gan gofnodi'r amseroedd a gymerwyd i gwblhau'r aseiniad.
- 5.2 Os caiff aseiniad ei gwblhau dros sawl sesiwn, rhaid i'r gwaith gael ei roi fesul tasg a rhaid i'r tiwtor/asesydd gasglu'r gwaith a gynhyrchwyd a'r deunydd asesu ar ddiwedd pob sesiwn a'u cadw'n ddiogel.
- 5.3 Os bydd ymgeisydd yn methu tasg, dylent gymryd yr un aseiniad. Argymhellir y dylai isafswm o saith diwrno fod wedi mynd heibio cyn y gall ymgeisydd aflwyddiannus gymryd yr un aseiniad. Dylid rhoi hyfforddiant/adborth pellach i ymgeiswyr cyn i aseiniad gael ei ail-gymryd.

5. Gwybodaeth ychwanegol

- 6.1 Mae'r atebion a roddir yn y meini prawf marcio a graddio yn arwydd o'r math o atebion y dylai ymgeiswyr eu rhoi. Nid ydynt yn derfynol.
- 6.2 Dylai tiwtor/aseswyr ddefnyddio eu barn broffesiynol ar safon cyflwyno'r gwaith a gyflwynir gan yr ymgeisydd.

Lefel 3 Egwyddorion marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid (7513-328)

Meini prawf marcio a graddio

Meini prawf graddio

Dylid ticio pob un o'r pwyntiau canlynol os ydynt wedi'u cyflawni'n foddhaol a rhoi croes os nad ydynt. Os nad yw pwynt yn berthnasol dylid rhoi croes drwyddo a nodi'r rhesymau pam nad yw'n berthnasol. **Mae'r atebion a roddir yn y meini prawf marcio a graddio yn arwydd o'r math o atebion y dylai ymgeiswyr eu rhoi. Nid ydynt yn derfynol; dylid defnyddio barn broffesiynol. Enghreifftiau yn unig yw pob achos a ddyfynnir oni nodir fel egwyddor sefydledig.** Dylid rhoi credyd os cyfeirir at achosion priodol eraill. Mae darpariaeth hefyd i rai meini prawf dewisol gael eu dyfarnu mewn achosion priodol. Dim ond pan fo gwaith ymgeisydd yn cyfiawnhau'r rhain y dylid dyfarnu'r rhain.

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
			<input type="checkbox"/>	
A		Cyflwyniad sleidiau gyda nodiadau wedi'i gynhyrchu	<input type="checkbox"/>	
	1.1	<p>Nodwyd tri rhanddeiliad.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none">• cwsmeriaid mewnol• cwsmeriaid allanol• rhanddeiliaid• cymuned. <p>○ Esboniodd pam mae angen meithrin perthynas â rhanddeiliaid.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none">• mae angen nodi a blaenoriaethu perthnasoedd rhanddeiliaid gan eu bod yn cael effaith hollbwysig ar gynllun marchnata sefydliad.		<p>○</p> <p>○</p> <p>○</p> <p>○</p>

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
	1.3	<ul style="list-style-type: none"> ○ Esboniodd sut i flaenoriaethu rhanddeiliaid. <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • eu dosbarthu yn ôl eu dylanwad ar y gwaith • eu dosbarthu yn ôl eu diddordeb yn y gwaith. 		○
	1.2	<ul style="list-style-type: none"> ○ Esboniodd y defnydd o fapio perthnasoedd rhanddeiliaid wrth ddatblygu ffyrdd o feithrin perthnasoedd. <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • deall nodau gwahanol rhanddeiliaid fel y gellid ystyried y nodau • dealltwriaeth o bwy sy'n debygol o gefnogi neu sy'n debygol o rwystro unrhyw brosiect marchnata • deall y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir a phryd. 		○
	1.4	<p>Esboniodd y sleid arwyddocâd rhanddeiliaid i gyflawni'r strategaeth farchnata gyffredinol, gan roi dwy enghraifft.</p> <p><i>Atebion posibl:</i> Gall rhanddeiliaid effeithio a dylanwadu ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • elw • twf • perfformiad • canfyddiad • cyllideb. 		○ ○

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
	1.5	<p>Disgrifiodd y sleid ddwy o nodweddion y farchnad y mae rhanddeiliaid yn gweithredu ynddi gan ddangos</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • gwleidyddol • economaidd • cymdeithasol • technolegol • cyfreithiol • moesegol. 		<input type="radio"/> <input type="radio"/>
	1.6	<p>Wedi disgrifio sut i ganfod agweddau rhanddeiliaid at sefydliad.</p> <p><i>Ateb posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • drwy gynnal ymchwil addas a allai fod mewn arolwg mewnol, grŵp ffocws, holiadur neu gyfweiliad. 		<input type="radio"/>
	1.7	<p>Sleid a ddisgrifiodd ddau synergedd gwirioneddol a phosibl a dau wrthdaro rhwng cleientiaid a rhanddeiliaid eraill.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <p>Gall synergeddau gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae gwerth am arian i gleient yn bwysig tra bod rhanddeiliad am gael elw • cefnogi'r amgylchedd drwy reoli gwastraff/ prynu moesegol/ pecynnu moesegol • mae llai o bacio'n ecogyfeillgar / arbed cost / rheoli gwastraff • labelu clir yw sicrhau cydymffurfiaeth a ffeithiau clir i'r cwsmer • hawliadau cywir yw sicrhau cydymffurfiaeth a ffeithiau clir i'r cwsmer. 		<input type="radio"/> <input type="radio"/>

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
		<p>Gallai gwrthdaro fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nid gwerth am arian lle gall y cleient wrthdaro â'r rhanddeiliad • gall gweithgynhyrchu/masnachu anfoesegol fod yn rhad sydd yn ei dro yn gwrthdaro â buddiant cleientiaid/ rhanddeiliaid • bydd hawliadau anghywir yn achosi i'r cleient beidio ag ymddiried yn y brand a gall effeithio ar werthiannau ac elw posibl • mae cynhyrchion anniogel yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth a allai wneud i'r cleient beidio ag ymddiried yn y brand a gall effeithio ar werthiannau ac elw posibl. 		<input type="radio"/> <input type="radio"/>
	2.1	<p>Esboniodd sut i nodi nodau cyffredin a synergedd posibl rhwng rhanddeiliaid a sefydliad.</p> <p><i>Ateb posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • ymgynghori â'r defnyddiwr a rhanddeiliaid i ganfod anghenion drwy ymchwil. 		<input type="radio"/>
	2.2 2.3	<p>Esboniodd a) pwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid mewn gweithgareddau marchnata a b) rhoddodd un enghraifft o gynllun cyfathrebu â rhanddeiliaid.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <p>a) yn caniatáu i'w hanghenion a'u dymuniadau canfyddedig a gwirioneddol gael eu diwallu drwy adeiladu eu gofynion yn y cynllun marchnata gan osgoi gwrthdaro buddiannau posibl.</p> <p>b) Cynllun cyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> • cytundebau lefel gwasanaeth • cynnwys gwefan • rheoli cyfrifon • diweddariadau 		<input type="radio"/> <input type="radio"/>
		Cafodd dau o ofynion allweddol strategaeth rheoli cystadleuwyr eu cynnwys a'u hesbonio.		

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
	2.4	<p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • wedi cael gwybodaeth am y farchnad • wedi dadansoddi strategaethau prisio • nododd gryfderau/gwendidau • wedi nodi bylchau yn y farchnad. 		○ ○
	2.5	<p>Esboniodd bwysigrwydd cytuno ar amcanion cyffredin gyda chleientiaid gan roi dau reswm.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • eglurhad o'r cynnyrch/gwasanaeth i'w ddarparu • cytundeb ar brisiau a threfnau amser • rhwystro camddealltwriaethau • yn caniatáu cynllunio ac amserlennu realistig. 		○ ○
I basio Tasg A, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf a ddangosir fel <input type="checkbox"/> a 18 maen prawf a ddangosir fel <input type="radio"/> .			Llwyddo / Methu Nifer <input type="radio"/> _____	

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
C		Adroddiad wedi'i gynhyrchu	<input type="checkbox"/>	
	3.1 3.2	<p>Esboniodd y defnydd o ddangosyddion perfformiad allweddol a meini prawf llwyddiant wrth fonitro effeithiolrwydd perthnasoedd rhanddeiliaid, ynghyd â dau ddull o fonitro effeithiolrwydd parhaus perthnasoedd rhanddeiliaid.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <p>mesurau perfformiad allweddol a meini prawf llwyddiant yw'r meincnodau sy'n caniatáu monitro. Heb y rhain, byddai'n amhosibl mesur effeithiolrwydd y gweithgareddau perthnasol.</p> <p>dulliau o fonitro effeithiolrwydd parhaus perthnasoedd rhanddeiliaid.</p> <ul style="list-style-type: none"> • arolwg • adolygiad blynyddol • cyswllt ad-hoc • rheoli cyfrifon • SWOT. 		○ ○ ○
	3.3	<p>Esboniodd bwysigrwydd system gyfathrebu ac adborth effeithiol â rhanddeiliaid.</p> <p><i>Ateb posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau dealltwriaeth o anghenion rhanddeiliaid yn barhaus. 		○

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
	3.4	<p>Esboniodd sut y gallai newidiadau yn amgylchedd y farchnad y mae rhanddeiliaid yn gweithredu ynddo gael effaith ar berthnasoedd.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • gwleidyddol • economaidd • cymdeithasol • technolegol • moesegol • cyfreithiol • cystadleuwyr. 		○
	3.5	<p>Esboniodd sut i ddatblygu strategaethau a chynlluniau sy'n mynd i'r afael ag agweddau ac anghenion rhanddeiliaid sy'n newid.</p> <p><i>Ateb posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • wedi cynnwys dull o fonitro newidiadau yn amgylchedd y farchnad ynghyd â phroses adolygu i ganiatáu datblygu strategaethau a chynlluniau sy'n mynd i'r afael ag agweddau ac anghenion newidiol rhanddeiliaid. 		○
	3.6	<p>Esboniodd dri ffactor i'w hystyried wrth ddatblygu system CRM i fodloni meini prawf llwyddiant y cytunwyd arnynt.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • olrhain gwerthiannau • patrymau prynu • ymgyrchoedd marchnata • cyswllt cwsmeriaid a negeseuon atgoffa 		○ ○ ○
		<p>Esboniodd bwysigrwydd adolygu effeithiolrwydd trefniadau cydweithredol gyda rhanddeiliaid.</p> <p><i>Atebion posibl:</i></p>		

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
	3.7	Wedi cynnwys system i adolygu effeithiolrwydd trefniadau cydweithredol gyda rhanddeiliaid megis: <ul style="list-style-type: none"> • dadansoddiad ganlyniad casglu gwybodaeth • adolygu a diweddarau strategaeth farchnata mewn ymateb i ganlyniadau. 		○
I basio Tasg C rhaid i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf a ddangosir fel <input type="checkbox"/> ac 8 maen prawf a ddangosir fel <input type="radio"/> .			Llwyddo / Methu Nifer ○ _____	

Lefel 3 Egwyddorion marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid (7513-328)

Dalen marcio aseiniad

Enw'r ymgeisydd

Rhif yr ymgeisydd

Enw'r ganolfan

Rhif y ganolfan

Tasg		Gradd a enillwyd
A	Cyflwyniad sleidiau gyda nodiadau	Llwyddo/Methu
B	Siart sefydliadol	Llwyddo/Methu
C	Adroddiad	Llwyddo/Methu

Rhaid pasio pob tasg i ganiatáu i radd gael ei hawlio.

Rwy'n gallu cadarnhau mai fy ngwaith fy hun yw'r dystiolaeth sydd wedi'i rhestru ar gyfer yr uned hon a'i fod wedi ei wneud yn yr amodau a'r cyd-destun a nodwyd yn y fanyleb asesu.

Llofnod yr Ymgeisydd

Dyddiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cyflawni holl ofynion yr uned hon gyda'r dystiolaeth a restrir a bod yr asesiad wedi ei gynnal o dan yr amodau a'r cyd-destun penodol, a'i fod yn ddilys, yn awthentig, yn ddibynadwy, yn gyfredol ac yn ddigonol.

Llofnod tiwtor/asesydd

Dyddiad

Llofnod Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd (os gwnaed sampl)

Dyddiad

Llofnod Ymgynghorydd Cymhwyster (os gwnaed sampl)

Dyddiad

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Lefel 3 Egwyddorion marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid (7513-328)

Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Cynghorir chi i ddarllen yr holl gyfarwyddiadau'n ofalus cyn dechrau'r gwaith a gwirio gyda'ch Asesydd/Tiwtor, os oes angen, i sicrhau eich bod wedi deall y broses yn llawn.

Rhaid i chi, bob amser, gadw at yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch perthnasol.

Iechyd a diogelwch

Rhaid pwysleisio ar bob adeg bwysigrwydd arferion gweithio diogel, galwadau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; (HASWA) neu reoliadau iechyd a diogelwch cenedlaethol a/ neu leol, rheoliadau cysylltiedig a Chodau Ymarfer cysylltiedig â diwydiant penodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwydddebau oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd (UE) lle y bo'n briodol. Mae gan ymgeiswyr gyfrifoldebau dros gynnal diogelwch eraill yn ogystal â'u diogelwch eu hunain. Rhaid atal unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel a rhoi rhybudd addas iddo. Ni ddylid byth ganiatáu i ymgeiswyr barhau aseiniad os yw wedi torri'r gofynion hyn. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i bob ymgeisydd feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Os na all ymgeiswyr gwblhau'r cyflwyniad yn seiliedig ar eu gweithle eu hunain, yna dylai ymgeiswyr ymchwilio i weithleoedd eraill, fel y ganolfan lle darperir hyfforddiant, lleoliad profiad gwaith, coleg, llyfrgell gyhoeddus neu ganolfan iechyd a ffitrwydd. **Rhaid** cytuno ar hyn gyda'r asesydd cyn i'r ymgeisydd ddechrau'r ddogfen.

Mae amser o **3 awr** wedi'i argymhell ar gyfer yr aseiniad hwn.

- Dylech geisio cwblhau pob tasg.
- Gallwch gyfeirio at y polisi neu weithdrefnau yn eich sefydliad eich hunain.
- Gellir defnyddio geiriaduron.

Lefel 3 Egwyddorion marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid (7513-328) Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Cyflwyniad

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys **tair** tasg.

Tasg A

Ei gwneud yn ofynnol i chi gynhyrchu cyflwyniad sleidiau gyda nodiadau.

Tasg B

Ei gwneud yn ofynnol i chi gynhyrchu siart sefydliadol ar gyfer adran farchnata.

Tasg C

Ei gwneud yn ofynnol i chi gynhyrchu adroddiad sy'n esbonio sut i fonitro a rheoli perthnasoedd rhanddeiliaid y farchnad.

Tasg A Cyflwyniad sleidiau

Cynhyrchwch gyflwyniad sleidiau (tua 12 sleid) gyda nodiadau cysylltiedig yn esbonio gwerth marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid a sut i adeiladu a rheoli perthnasoedd rhanddeiliaid. Ni fydd disgwyl i chi gyflwyno'r cyflwyniad eich hun, ond dylech gynnwys nodiadau manwl i helpu'r cyflwynydd.

Dylai'r cyflwyniad sleidiau a'r nodiadau fod rhwng 20 - 30 munud o hyd a **rhaid** iddynt gynnwys y canlynol:

- sleidiau gyda nodiadau sy'n nodi **tri** rhanddeiliad a
 - pam mae angen meithrin perthynas â rhanddeiliaid
 - sut i flaenoriaethu rhanddeiliaid a
 - defnyddio mapio perthnasoedd rhanddeiliaid wrth ddatblygu ffyrdd o feithrin perthnasoedd.
- sleid yn esbonio arwyddocâd rhanddeiliaid i gyflawni'r strategaeth farchnata gyffredinol, gan roi **dwy** enghraifft
- sleid sy'n disgrifio **dwy** o nodweddion y farchnad y mae rhanddeiliaid yn gweithredu ynddi
- disgrifiad o sut i ganfod agweddau rhanddeiliaid at sefydliad
- sleid sy'n disgrifio **dau** synergedd gwirioneddol a phosibl a **dau** wrthdaro rhwng cleientiaid a rhanddeiliaid eraill
- esboniad o sut i nodi nodau cyffredin a oedd hefyd yn esbonio sut i nodi nodau cyffredin a synergedd posibl rhwng rhanddeiliaid a sefydliad
- esboniad o a) pwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid mewn gweithgareddau marchnata gan roi un enghraifft o gynllun cyfathrebu â rhanddeiliaid a b) rhoi un enghraifft o gynllun cyfathrebu â rhanddeiliaid
- cynhwyswch **ddau** o ofynion allweddol strategaeth rheoli cystadleuydd gydag esboniadau
- rhowch **ddau** reswm dros bwysigrwydd cytuno ar nodau cyffredin gyda chleientiaid.

Tasg B Siart sefydliadol

Cynhyrchwch siart sefydliadol ar gyfer adran farchnata sy'n dangos a) **dau** gyffredinolwr a b) **tri** arbenigwr a phob un o'u rolau penodol.

Tasg C Adroddiad

Cynhyrchwch adroddiad yn esbonio sut i fonitro a rheoli perthnasoedd rhanddeiliaid y farchnad yn seiliedig ar eich gweithle, canolfan hyfforddi neu goleg.

Ni ddylai'r adroddiad fod yn fwy na 750 o eiriau a gellir ei gynhyrchu naill ai â llaw neu'n electronig. **Rhaid** i'r adroddiad cynnwys y canlynol:

- y defnydd o ddangosyddion perfformiad allweddol a meini prawf llwyddiant wrth fonitro effeithiolrwydd perthnasoedd rhanddeiliaid, ynghyd â **dau** ddull o fonitro effeithiolrwydd parhaus perthnasoedd rhanddeiliaid
- pwysigrwydd system gyfathrebu ac adborth effeithiol â rhanddeiliaid
- sut y gallai newidiadau yn amgylchedd y farchnad y mae rhanddeiliaid yn gweithredu ynddo gael effaith ar berthnasoedd
- sut i ddatblygu strategaethau a chynlluniau sy'n mynd i'r afael ag agweddau ac anghenion rhanddeiliaid sy'n newid
- **tri** ffactor i'w hystyried wrth ddatblygu system CRM i fodloni meini prawf llwyddiant y cytunwyd arnynt
- pwysigrwydd adolygu effeithiolrwydd trefniadau cydweithredol gyda rhanddeiliaid.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Lefel 3 Meddalwedd taenlenni (7513-337)

Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio

Am y ddogfen hon

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 3 Meddalwedd taenlenni (7513-337).

Mae'r wybodaeth am dasg yr aseiniad hwn wedi'i chynnwys yng *Nghyfarwyddiadau'r Ymgeisydd*. Mae'r nodiadau arweiniad canlynol yn cael eu darparu i gynorthwyo aseswyr wrth gynllunio cyflwyno'r aseiniad i ymgeiswyr.

Gwybodaeth bwysig

Ni ddylid dangos y ddogfen hon i ymgeiswyr cyn yr aseiniad.

Gellir rhoi adborth i ymgeiswyr ar ôl yr aseiniad gan ddefnyddio'r ddogfen hon, ond nid oes hawl ganddynt i gadw copi.

Iechyd a diogelwch

Rhaid pwysleisio ar bob adeg bwysigrwydd arferion gweithio diogel, galwadau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; (HASWA) neu reoliadau iechyd a diogelwch cenedlaethol a/ neu leol, rheoliadau cysylltiedig a Chodau Ymarfer cysylltiedig â diwydiant penodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddebau oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd (UE) lle y bo'n briodol. Mae gan ymgeiswyr gyfrifoldebau dros gynnal diogelwch eraill yn ogystal â'u diogelwch eu hunain. Rhaid atal unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel a rhoi rhybudd addas iddo. Ni ddylid byth ganiatáu i ymgeiswyr barhau aseiniad os yw wedi torri'r gofynion hyn. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i bob ymgeisydd feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Lleoliad yr aseiniad

Unrhyw amgylchedd addas.

Cyfarpar angenrheidiol ar gyfer yr aseiniad hwn

Tybir y bydd ymgeiswyr yn gweithio ar system Rwydwaith ac os felly bydd ganddynt gyfeiriadur Hafan a mynediad darllen i ardal y gellir darllen gwybodaeth yr aseiniad ohoni (ffeiliau a chyfeiriaduron). Os caiff cyfrifiaduron arunig eu defnyddio, gellir rhoi manylion yr aseiniad ar ddisg sefydlog a storio ffeiliau'r ymgeisydd ar gyfrwng storio symudol.

Tystiolaeth a chofnodi

Dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr holl ddata a gynhyrchir gan ymgeiswyr yn cael eu cadw'n ddiogel a bod aseiniadau, ar ôl eu lawrlwytho, yn cael eu cloi i ffwrdd yn ddiogel nes cael eu defnyddio. Cyfrifoldeb y ganolfan/asesydd yw sicrhau mai'r ymgeisydd sy'n gwneud aseiniad /prawf yw'r person cywir. Yn ddelfrydol, dylai canolfannau gynhyrchu strategaeth ysgrifenedig sy'n amlinellu eu gweithdrefnau i sicrhau bod yr uchod yn digwydd.

Diogelwch

Dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr holl ddata a gynhyrchir gan ymgeiswyr yn cael eu cadw'n ddiogel a bod aseiniadau, ar ôl eu lawrlwytho, yn cael eu cloi i ffwrdd yn ddiogel nes cael eu defnyddio. Cyfrifoldeb y ganolfan/asesydd yw sicrhau mai'r ymgeisydd sy'n gwneud aseiniad /prawf yw'r person cywir. Yn ddelfrydol, dylai canolfannau gynhyrchu strategaeth ysgrifenedig sy'n amlinellu eu gweithdrefnau i sicrhau bod yr uchod yn digwydd.

Ystyriaethau amser

Mae lwfansau amser wedi eu hargymell ar gyfer pob aseiniad; serch hynny nid ydynt yn rhan o'r meini prawf marcio, a'u diben yw rhoi arweiniad yn unig. Fodd bynnag, os teimlwch fod ar ymgeisydd angen amser ychwanegol i gwblhau'r aseiniad, mater i'r Asesydd ei benderfynu yw hyn.

Argymhellir y dylai'r ymgeiswyr gwblhau'r aseiniad hwn o fewn **dwy awr a hanner**.

Os caiff yr aseiniad ei wneud dros fwy nag un cyfnod, rhaid dychwelyd yr holl waith papur a'r cyfryngau symudol i arolygydd y prawf ar ddiwedd pob sesiwn.

Rhaid i gyfnod o saith diwrnod fynd heibio cyn y gall ymgeisydd aflwyddiannus ail-wneud yr aseiniad hwn.

Ffeiliau i'w darparu gan y ganolfan

	Ar gyfer Tasg	Manyleb ffeil	Math	Enw'r ffeil
1		Microsoft Office Excel Comma Separated Values File /Ffeil Gwerthoedd wedi'u Gwahanu ag Atalnod	.csv	heston
2		Dogfen destun	.txt	heston

Mae'r holl ffeiliau a'r enghreifftiau wedi'u gweithio ar gael ar ein gwefan.

Lefel 3 Meddalwedd Taenlenni (7513-337)

Meini prawf marcio a graddio

Sut i farcio'r aseiniad hwn

Dangosir holl gyfarwyddiadau'r ymgeisydd i hwyluso marcio. Dylid rhoi marc am bob tasg a nodir yn y marcio, os yw'r ymgeisydd yn ei chyflawni. Ar ddiwedd y meini prawf marcio dylid adio marciau'r ymgeiswyr a rhoi gradd gyffredinol yn ôl y nifer penodol o feini prawf a ddangosir. Defnyddiwch bob tystiolaeth bosibl i gefnogi dyfarnu marciau gan gynnwys ffeiliau electronig, allbrintiau ac ati. Dangosir y golofn Tystiolaeth a Chofnodi fel awgrym.

Meini prawf graddio

Llwyddo - 22 meini prawf wedi'u dangos fel ().

Noder: PEIDIWCH Â MARCIO ALLBRINTIAU HEB ENW gellir marcio tudalennau sy'n cynnwys troedynnau wedi'u hysgrifennu â llaw ond ni ellir dyfarnu marciau am y troedyn.

Tasg A	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1		Heston	Yn eich ardal leol neu ar eich cyfryngau y gellir eu tynnu, crëwch gyfeiriadur/ffolder newydd a'i enwi'n Heston .	Cyfeiriadur wedi'i greu gyda'r enw Heston	Amh.
2	C1.4	Heston	Copiwch y ffeil testun wedi'i hamffinio â thab, a ddarperir gan eich asesydd, o'r enw heston.txt i ffolder Heston .	Ffeil destun wedi'i chopio i Heston	()
3	C1.1 C1.2 C1.3 C3.2	MyBackup	Agorwch eich cymhwysiad taenlen a mewngludo'r ffeil heston.txt . Enwch y daflen waith gyntaf yn Salesperson_Sales Ychwanegwch eich enw a dyddiad heddiw fel troedyn.	Ffeil destun wedi'i mewngludo Dalen waith wedi'i henwi Salesperson_Sales Enw a dyddiad wedi'u hychwanegu fel troedyn Sylwer: Y cyfan yn gywir i ddyfarnu marc	()
4	C1.4	MyBackup	Cadwch y daenlen fel MyBackup yn eich ffolder Heston .	Taenlen wedi'i chadw fel MyBackup	()

Tasg B	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	C1.4	Heston_Master	Ail-gadwch y daenlen gyda'r enw Heston_Master a'i chadw yn eich ffolder Heston . Sylwer: Cynghorir chi i gadw eich gwaith yn gyson trwy gydol yr aseiniad hwn.	Taenlen wedi'i hail-gadw fel Heston_Master	()
2	C1.1 C1.2 C3.1 C3.2	Heston_Master	Ychwanegwch res newydd ar frig y daflen waith a rhowch i mewn y teitl HESTON AUTOMOBILES . Fformatiwch y teitl ar ffont lliw mwy. Fformatiwch yr holl ddalennau gwaith fel bod y penawdau colofn yn drwm a bod yr holl ddata i'w weld yn glir.	HESTON AUTOMOBILES wedi'i ychwanegu fel rhes uchaf. Wedi fformatio i ffont lliw a mwy. Pob pennawd colofn wedi'u fformatio i fod yn drwm. Sylwer: Y cyfan yn gywir i ddyfarnu marc	()
3	C3.2	Heston_Master	Mae'r holl werthoedd ariannol i'w harddangos fel arian lleol, wedi'u fformatio i sero lle degol ac wedi'u halinio'n gywir.	Gwerthoedd ariannol wedi'u gosod i arian lleol, dim lleoedd degol ac wedi'u halinio'n gywir.	()
4	C2.1 C2.3 C3.1 C3.2	Heston_Master	Trefnwch y data yn Salesperson_Sales Personau_Gwerthiant yn nhrefn esgynnol enw'r person gwerthu yna flynyddoedd.	Data wedi'i ddsbarthu yn ôl person gwerthu yna fesul blwyddyn	()
5	C1.1 C1.2	Heston_Master	Ar y daflen waith Salesperson_Sales crëwch golofn newydd mewn lleoliad addas gyda'r pennawd Canran .	Colofn newydd wedi'i chreu mewn lleoliad priodol. Pennawd yw Canran Sylwer: Y ddau'n gywir i ddyfarnu marc	()
6	C3.5	Heston_Master	Am bob rhes o dan y pennawd Canran crëwch fformiwla fydd yn dangos gwerthiant blynyddol pob gwerthwr yn erbyn y targed a osodwyd. Sicrhewch fod y canlyniadau'n cael eu dangos fel canran.	Fformiwla wedi'i chreu (e.e. = G3/H3) (derbyniwch unrhyw fformiwla sy'n rhoi'r canlyniad cywir). Y canlyniadau wedi'u dangos fel canran . Peidiwch â dyfarnu os defnyddiwyd y ffwythiant.	()

Tasg B	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
7	C3.4 C3.5	Heston_Master	Ar gyfer pob gwerth canran, crëwch fformat amodol ar gyfer pob un o'r celloedd hynny sy'n newid lliw'r gell i goch os nad yw gwerthiant blynyddol y gwerthwr wedi'i gyrraedd ac i wyrdd os ydyw wedi'i gyrraedd neu ei ragori.	Fformatio amodol wedi'i osod Lliw cell coch os na chyrhaeddir y targed Lliw cell gwyrdd os cyrhaeddir y targed neu ragori arno	Amh. () ()
8	C1.1 C2.2 C3.1 C3.2	Heston_Master	Adolygwch y daflen waith Salesperson_Sales i sicrhau ei bod yn addas i'r diben a gwnewch unrhyw addasiadau angenrheidiol.	Taflen waith yn addas i'r diben	Amh.
9	C1.3 C3.2 C3.6	Heston_Master	Er mwyn cyflawni'r manylebau, crëwch gopi cysylltiedig o'r daflen waith Salesperson_Sales i ddwy daflen waith newydd. Enwch y taflenni gwaith yn Company_Turnover (Trosiant Cwmni) a Staff_Bonuses (Bonws) . Sicrhewch fod fformatio ar y ddwy ddalen hyn yn gyson â'r ddalen gyntaf. Tynnwch unrhyw ddata dros ben a all gael ei greu gan y broses gysylltu.	Taflenni gwaith Company_Turnover a Staff_Bonuses wedi'u creu Data cysylltiedig wedi'i gopïo i'r ddwy daflen waith o Salesperson_Sales (tynnu'r gormodedd o seroau a fformatio wedi'i gopïo o'r daflen waith wreiddiol) Sylwer: Y ddau'n gywir i ddyfarnu marc	()
10	C3.4	Heston_Master	Yn y daflen waith Company_Turnover , didolwch eich data yn esgynnol yn ôl blwyddyn, ac yna'n esgynnol yn ôl person gwerthu. Crëwch doriad digon mawr rhwng y rhesi fel bod y grwpiau blwyddyn wedi'u gwahanu'n glir.	Grwpiau blwyddyn wedi'u gwahanu gan fylchau rhesi Data wedi'u dosbarthu fesul blwyddyn, yna'n esgynnol yn ôl person gwerthu	()
11	C1.1 C2.1 C2.2	Heston_Master	Yn y rhes gyntaf o dan bob grŵp blwyddyn, crëwch ffwythiant sy'n adio cyfanswm gwerth pob un o'r colofnau sydd â gwerthoedd ariannol.	Ffwythiant wedi'i greu i gyfrifo cyfansymiau am bob colofn gyda gwerthoedd ariannol.	()

Tasg B	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
	C3.5 C3.6 C3.7		Ailadroddwch hyn am y grwpiau blwyddyn eraill. Ychwanegwch unrhyw destun rhes addas i esbonio'r gwerthoedd a grëwyd.	Testun wedi'i ychwanegu. (e.e. Cyfanswm) Sylwer: Y ddau'n gywir i ddyfarnu marc	
12	C3.2	Heston_Master	Crëwch golofn newydd i'r dde o'r data gyda'r pennawd Elw/Colled . Fformatiwch y penawdau fel eu bod yn edrych yr un fath â'r holl benawdau eraill.	Colofn wedi'i chreu a'i labelu fel Elw/Colled gyda'r fformatio cywir	()
13	C2.1 C2.2 C3.1 C3.2 C3.4 C3.5 C3.6 C3.7	Heston_Master	O dan Elw/Colled ac yn unol â'r cyfansymiau ariannol, crëwch fformiwla sy'n cyfrifo gwerth canran yn seiliedig ar werthiannau blynyddol yn erbyn y gwerthiannau targed. Crëwch yr un fformatio amodol ar gyfer y celloedd hyn fel y'i defnyddir yn Salesperson_Sales .	Fformiwla wedi'i chreu i gyfrifo gwerthiant blynyddol yn erbyn y targed. (h.y. =SUM(G10/H10)) (derbyniwch unrhyw ateb sy'n rhoi'r canlyniad cywir)	()
				Y canlyniad yn cael ei ddangos fel canran	Amh.
				Fformatio amodol wedi'i osod fel Tasg B7	()
14	C3.1 C3.2 C3.4	Heston_Master	Gwnewch y ddalen waith yn well gan ddefnyddio unrhyw ddull addas i adnabod ymhellach grwpiau blwyddyn y ffigurau gwerthiant a gwiriwch eich gwaith i sicrhau ei fod yn bodloni'r fanyleb.	Gwelliannau addas (e.e. ystodau celloedd wedi'u lliwio, borderi ac ati)	()
15	C3.1 C3.2 C3.4	Heston_Master	Cymhwyswch yr un fformat, neu fformatio tebyg, i'r daflen waith Staff_Bonuses er mwyn gwahanu'r grwpiau blwyddyn.	Gwelliannau addas wedi'u gwneud (e.e. ystodau celloedd wedi'u lliwio, borderi ac ati)	()
16	C2.1 C2.2 C2.3 C3.5 C3.6	Heston_Master	Yn Staff_Bonuses (Bonws staff) , copi'wch neu ail-grëwch y fformiwla a ddefnyddir ar gyfer y golofn Elw/Colled yn Company_Turnover (Trosiant Cwmni) i linell waelod y golofn Canran ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Ailadroddwch y fformatio amodol ar gyfer lliwiau'r gell. Os nad ydynt eisoes yn bresennol, ailadroddwch y cyfansymiau ariannol	Fformiwla gywir wedi'i hailadrodd a fformatio amodol (lliwiau) yn cael eu cymhwyso ar gyfer pob grŵp blwyddyn	()

Tasg B	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
	C3.7		ar gyfer pob colofn fel y'i crëwyd yn flaenorol yn y daflen Trosiant Cwmni .		
17	C3.2	Heston_Master	Mewnosodwch ddwy golofn ychwanegol i'r dde o'r data presennol gyda'r enwau pennawd Eligible a Bonus @ 75%	Colofnau Eligible a Bonus @ 75% wedi'u hychwanegu i'r dde o'r data presennol	()
18	C2.1 C2.2 C2.3 C3.5 C3.6	Heston_Master	Yn y golofn Eligible , yn erbyn pob person gwerthiant, crëwch ffwythiant rhesymegol sy'n dychwelyd 1 os yw'r person gwerthu wedi cyrraedd neu ragori ar eu gwerthiannau targed a 0 (sero) os nad ydynt. Yn unol â'r cyfansymiau presennol am bob grŵp oedran, mewnosodwch ffwythiant sy'n rhoi cyfanswm am y gwerthoedd a gaiff eu bwydo.	Crëwyd ffwythiant dilys ar gyfer pob person gwerthu (e.e. =IF(I4>=1,1,0) derbyniwch unrhyw ffwythiant dilys sy'n rhoi'r canlyniad cywir)	()
19	C2.1 C2.2 C2.3 C3.5 C3.6 C3.7	Heston_Master	Mae gan y cwmni bolisi o ddsbarthu 75% o'i elw yn ôl i'r tîm gwerthu fel bonysau bob blwyddyn dim ond os yw'r elw'n fwy na 105% o'i werthiannau targed (elw=gwerthiannau blynyddol – gwerthiannau targed). Dim ond y personau gwerthu sydd wedi cyrraedd neu ragori ar eu targedau ar gyfer y flwyddyn sy'n gymwys i dderbyn unrhyw fonws. O dan bennawd y golofn Bonws @ 75% , ac yn unol â'r cyfansymiau presennol ar gyfer pob grŵp blwyddyn, crëwch ffwythiant sy'n cyfrifo faint o elw sydd i'w ddsbarthu i'r tîm gwerthu ar gyfer y flwyddyn honno.	Swyddogaeth wedi'i chreu mewn colofn â'r pennawd Bonus @ 75% ac mewn llinell â chyfansymiau blwyddyn a gyfrifodd elw'r cwmni fel canran (e.e. =IF(I18>=1.05,(G18-H18)*0.75,0) (derbyniwch unrhyw ateb sy'n rhoi'r canlyniad cywir)	()
20	C2.1 C2.2 C2.3 C3.5 C3.6	Heston_Master	O dan bennawd y golofn Bonws @ 75% ac ar gyfer pob person gwerthu crëwch fformiwla a fydd yn pennu eu cymhwysedd i gael bonws sy'n dychwelyd o (sero) os nad yw'n gymwys a'u canran o'r elw os ydynt yn gymwys.	Fformiwla wedi'i chreu yn y golofn â'r pennawd Bonws @ 75% ac mewn llinell â phob person gwerthu a gyfrifodd eu cyfran o unrhyw elw dyladwy	()

Tasg B	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
	C3.7		Ailadroddwch y fformiwlâu hyn am bob grŵp blwyddyn.	(e.e. =IF(J4=1,\$K\$10/\$J\$10,0)) (derbyniwch unrhyw ateb sy'n rhoi'r canlyniad cywir)	
21	C3.2	Heston_Master	Sicrhewch fod y gwerthodd ariannol am Bonus @ 75% yn cael eu gosod ar yr arian cyfred lleol ac i ddau bwynt degol.	Symiau bonws staff wedi'u gosod ar arian lleol ac i ddau le degol	()
22	C1.4 C3.1 C3.2 C3.5 C3.6 C3.7	Heston_Master	Defnyddiwch dulliau addas i wirio bod y gwerthoedd cywir wedi'u cyfrifo. Addaswch unrhyw fformatio i sicrhau bod eich gwaith yn diwallu anghenion y cwmni a chadwch y daenlen.	Taenlen yn bodloni anghenion ac wedi'i chadw	Amh.

Tasg C	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	C3.2	Heston_Master	Crëwch daflen waith newydd ar ddiwedd eich llyfr gwaith gyda'r enw Graff .	Taflen waith newydd wedi'i chreu a'i henwi'n Graff	Amh.
2	C2.3 C3.3	Heston_Master	Gan ddefnyddio'r data a gynhwysir yn Salesperson_Sales crëwch graff bar sy'n dangos cyfanswm y gwerthiannau ar gyfer pob person gwerthu dros Flynyddoedd un i dri yn unig. (Os oes angen, copi'wch unrhyw ddata sy'n ofynnol i'r daflen waith hon neu drwy unrhyw ddull addas arall fel siartiau colyn).	Graff bar wedi'i greu i Flynyddoedd un, dau a thri yn unig Tabl/siart colyn wedi'i ddefnyddio i greu graff	() ()
3	C2.3 C3.1 C3.2	Heston_Master	Ychwanegwch allwedd cyfres ac unrhyw welliant(welliannau) eraill sydd ar gael i wella'r dyluniad.	Mae'r graff yn cynnwys allweddau cyfres dilys	()

Tasg C	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
	C3.3 C3.4 C3.6 C3.7		Sicrhewch fod y graff yn dangos enw'r person gwerthu.	Mae'r graff yn dangos enw'r person gwerthu	()
4	C1.1 C1.2 C2.3 C3.3	Heston_Master	Ychwanegwch y teitl HESTON AUTOMOBILES i'r graff.	Teitl graff HESTON AUTOMOBILES wedi'i ychwanegu	()
5	C3.2	Heston_Master	Sicrhewch fod yr holl werthoedd yn dangos yr arian cyfred lleol.	Gwerthoedd graff wedi'u dangos fel arian lleol	()
6	C1.4 C3.1 C3.2 C3.4 C3.5 C3.6 C3.7	Heston_Master	Gwnewch unrhyw addasiadau i'r graff i gynorthwyo darllenadwyedd, gwiriwch y graff am gywirdeb ac arbedwch eich gwaith.	Addasiadau wedi'u gwneud os oes angen	Amh.

Tasg Ch	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	C1.1 C1.2 C3.2	Heston_Master	Crëwch daflen waith newydd ar ddiwedd eich llyfr gwaith/taenlen gyda'r enw Benthyciad .	Taflen waith newydd wedi'i chreu a'i henwi'n Benthyciad	Amh.
2	C1.1 C1.2 C2.1 C2.2 C2.3 C2.4	Heston_Master	Defnyddiwch ffwythiant addas fydd yn cyfrifo ad-daliadau misol. Defnyddiwch y gwerthoedd cychwynol canlynol ar gyfer eich gosodiad:	Crëwyd ffwythiant addas sy'n cyfrifo ad-daliadau misol yn seiliedig ar faint benthyciad, cyfradd llog gyfredol a chyfnod benthycia	()

Tasg Ch	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
			<ul style="list-style-type: none"> Benthyciad - 100,000 Cyfradd llog – 6% Cyfnod benthyciad – 5 mlynedd. 		
3	C3.2	Heston_Master	Gosodwch yr holl werthoedd ariannol i arian cyfred lleol a dau le degol, gosodwch ganrannau i arddangos dau le degol a defnyddiwch destun gwybodaeth i helpu i arwain y defnyddiwr i'ch penawdau rhes.	Yr holl werthoedd ariannol wedi'u gosod i arian cyfred lleol ac i ddau bwynt degol	()
				Canrannau wedi'u dangos i ddau le degol.	()
				Testun dilys wedi'i fewnosod i ddisgrifio pwrpas y gell	()
4	C1.1 C1.2 C1.4 C3.1 C3.2 C3.4 C3.5 C3.6 C3.7	Heston_Master	Gwiriwch y daflen waith am gywirdeb, a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol. Cadwch eich gwaith a chaewch y cymhwysiad.	Ffeil wedi'i chadw a'r cymhwysiad wedi'i gau	Amh.

Am yr Ymgeisydd

Enw'r ymgeisydd		Rhif cofrestru City & Guilds	
-----------------	--	------------------------------	--

Enw'r ganolfan		Rhif y ganolfan	
----------------	--	-----------------	--

Am yr asesiad

Dyddiad asesu		Amser cychwyn	
		Amser cwblhau	

Nifer y () a gyflawnwyd	
--------------------------	--

Llwyddo - 22 meini prawf wedi'u dangos fel ().

Gradd gyffredinol a enillwyd	
------------------------------	--

Llofnodion

Llofnod yr Ymgeisydd		Dyddiad	
----------------------	--	---------	--

Enwebai ansawdd (os gwnaed sampl)		Dyddiad	
-----------------------------------	--	---------	--

Llofnod yr Asesydd		Dyddiad	
--------------------	--	---------	--

Llofnod Sicrhäwr Ansawdd Allanol (os gwnaed sampl)		Dyddiad	
--	--	---------	--

Lefel 3 Meddalwedd Taenlenni (7513-337)

Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Am y ddogfen hon

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 3 Meddalwedd taenlenni (7513-337).

Iechyd a diogelwch

Rydych chi'n gyfrifol am gynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill. Gofynnir i chi weithio'n ddiogel bob amser.

Ni chewch chi barhau ag aseiniad os ydych chi'n torri unrhyw un o'r gofynion Iechyd a Diogelwch.

Amser a ganiateir

Y lwfans amser a argymhellir ar gyfer yr aseiniad hwn yw **dwy awr a hanner**.

Lefel 3 Meddalwedd Taenlenni (7513-337)

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Amser a ganiateir: Dwy awr a hanner

Yr aseiniad:

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys **pedair** tasg

- **Tasg A** - Gosod ffeil
- **Tasg B** - Creu taenlenni
- **Tasg C** - Creu graff
- **Tasg Ch** - Creu cyfrifydd benthyciad

Senario

Rydych newydd gael eich cyflogi fel gweinyddwr ar gyfer cwmni gwerthu ceir lleol (Heston Automobiles). Mae'r rheolwr, Mr Heston, yn cyflogi chwe pherson gwerthu ac wedi bod yn ceisio cadw cofnodion chwarterol o'u perfformiad gwerthu am y pedair blynedd diwethaf.

Mae e newydd newid systemau cyfrifiadurol ac mae wedi colli llawer o'i waith ond mae wedi achub rhywfaint o'i ddata fel ffeiliau wrth gefn ar ffurf ffeil testun wedi'i amffinio â thab. Mae'r data'n cwmpasu'r tair blynedd diwethaf a'r ddau chwarter cyntaf ar gyfer eleni. Rydych chi bellach yn nhrydydd chwarter Blwyddyn pedwar.

Mae gan bob un o'r chwe pherson gwerthu werth targed am werthiant ar gyfer y flwyddyn sy'n seiliedig ar ganran o darged y cwmni ar gyfer y flwyddyn.

Mae Mr Heston wedi nodi ei fod am ddefnyddio'r wybodaeth am werthiannau presennol ac yn y dyfodol i lywio trosiant cyffredinol ei fusnes ac i ddyfarnu, lle y bo'n briodol, bonysau. Yn ogystal, hoffai weld darlun graffigol o gynhyrchiant pob person gwerthu a ddefnyddir at ddibenion gwerthuso.

Eich tasg yw trosglwyddo'r data presennol i gymhwysiad taenlen a'i drin er mwyn i Mr Heston allu gwneud ei benderfyniadau strategol.

Darllenwch yr holl gyfarwyddiadau'n ofalus a gwnewch y tasgau yn y drefn sy'n cael ei rhoi.

Tasg A - Gosod ffeil

- 1 Yn eich ardal waith neu ar eich cyfryngau y gellir eu tynnu, crëwch gyfeiriadur/ffolder newydd a'i enwi'n **Heston**.
- 2 Copiwch y ffeil testun wedi'i hamffinio â thab, a ddarperir gan eich asesydd, o'r enw **heston.txt** i ffolder **Heston**.

- 3 Agorwch eich cymhwysiad taenlen a mewngludo'r ffeil **heston.txt**.

Enwch y daflen waith gyntaf yn **Salesperson_Sales**

Ychwanegwch eich enw a dyddiad heddiw fel troedyn.

- 4 Cadwch y daenlen fel **MyBackup** yn eich ffolder **Heston**.

Tasg B - Creu taenlenni

- 1 Ailgadwch y daenlen gyda'r enw **Heston_Master** a'i chadw yn eich ffolder **Heston**.

Sylwer: Cynghorir chi i gadw eich gwaith yn gyson trwy gydol yr aseiniad hwn.

- 2 Ychwanegwch res newydd ar frig y daflen waith a rhowch i mewn y teitl **HESTON AUTOMOBILES**.

Fformatiwch y teitl ar ffont lliw mwy.

Fformatiwch **yr holl** ddalennau gwaith fel bod y penawdau colofn yn drwm a bod yr **holl** ddata i'w weld yn glir.

- 3 Mae'r holl werthoedd ariannol i'w harddangos fel arian lleol, wedi'u fformatio i sero lle degol ac wedi'u halinio'n gywir.

- 4 Trefnwch y data yn **Salesperson_Sales** yn nhrefn esgynnol enw'r person gwerthu yna flynyddoedd.

- 5 Ar y daflen waith **Salesperson_Sales** crëwch golofn newydd mewn lleoliad addas gyda'r pennawd **Canran**.

- 6 Am bob rhes o dan y pennawd **Canran** crëwch fformiwla fydd yn dangos gwerthiant blynyddol pob gwerthwr yn erbyn y targed a osodwyd. Sicrhewch fod y canlyniadau'n cael eu dangos fel canran.

- 7 Ar gyfer pob gwerth canran, crëwch fformat amodol ar gyfer pob un o'r celloedd hynny sy'n newid lliw'r gell i goch os nad yw gwerthiant blynyddol y gwerthwr wedi'i gyrraedd ac i wyrdd os ydyw wedi'i gyrraedd neu ei ragori.

- 8 Adolygwch y daflen waith **Salesperson_Sales** i sicrhau ei bod yn addas i'r diben a gwnewch unrhyw addasiadau angenrheidiol.

- 9 Er mwyn cyflawni'r manylebau, crëwch gopi cysylltiedig o'r daflen waith **Salesperson_Sales** i **ddwy** daflen waith newydd.

Enwch y taflenni gwaith yn **Company_Turnover (Trosiant Cwmni)** a **Bonysau_Staff**, Sicrhewch fod fformatio ar y ddwy ddalen hyn yn gyson â'r ddalen gyntaf. Tynnwch unrhyw ddata dros ben a all gael ei greu gan y broses gysylltu.

- 10 Yn y daflen waith **Company_Turnover**, didolwch eich data yn esgynnol yn ôl blwyddyn, ac yna'n esgynnol yn ôl person gwerthu.

Crëwch doriad digon mawr rhwng y rhesi fel bod y grwpiau blwyddyn wedi'u gwahanu'n glir.

- 11 Yn y rhes gyntaf o dan bob grŵp blwyddyn, crëwch ffwythiant sy'n adio cyfanswm gwerth pob un o'r colofnau sydd â gwerthoedd ariannol.

Ailadroddwch hyn am y grwpiau blwyddyn eraill.

Ychwanegwch unrhyw destun rhes addas i esbonio'r gwerthoedd a grëwyd.

- 12 Crëwch golofn newydd i'r dde o'r data gyda'r pennawd **Elw/Colled**. Fformatiwch y penawdau fel eu bod yn edrych yr un fath â'r **holl** benawdau eraill.

- 13 O dan **Elw/Colled** ac yn unol â'r cyfansymiau ariannol, crëwch fformiwla sy'n cyfrifo gwerth canran yn seiliedig ar werthiannau blynyddol yn erbyn y gwerthiannau targed.

Crëwch yr un fformatio amodol ar gyfer y celloedd hyn fel y'i defnyddir yn **Salesperson_Sales**.

- 14 Gwnewch y ddalen waith yn well gan ddefnyddio unrhyw ddull addas i adnabod ymhellach grwpiau blwyddyn y ffigurau gwerthiant a gwiriwch eich gwaith i sicrhau ei fod yn bodloni'r fanyleb.

- 15 Cymhwyswch yr un fformat, neu fformatio tebyg, i'r daflen waith **Staff_Bonuses** er mwyn gwahanu'r grwpiau blwyddyn.

- 16 Yn **Staff_Bonuses**, copi'wch neu ail-grëwch y fformiwla a ddefnyddir ar gyfer y golofn **Elw/Colled** yn **Company_Turnover** i linell waelod y golofn **Canran** ar gyfer pob grŵp blwyddyn ac ailadroddwch y fformatio amodol ar gyfer lliwiau'r gell. Os nad ydynt eisoes yn bresennol, ailadroddwch y cyfansymiau ariannol ar gyfer pob colofn fel y'i crëwyd yn flaenorol yn y daflen Trosiant Cwmni.

- 17 Mewnosodwch **ddwy** golofn ychwanegol i'r dde o'r data presennol gyda'r enwau pennawd **Eligible** a Bonws @ 75%.

- 18 Yn y golofn **Eligible**, yn erbyn pob person gwerthiant, crëwch ffwythiant rhesymegol sy'n dychwelyd **1** os yw'r person gwerthu wedi cyrraedd neu ragori ar eu gwerthiannau targed a **0** (**sero**) os nad ydynt.

Yn unol â'r cyfansymiau presennol am bob grŵp oedran, mewnosodwch ffwythiant sy'n rhoi cyfanswm am y gwerthoedd a gaiff eu bwydo.

- 19 Mae gan y cwmni bolisi o ddsbarthu 75% o'i elw yn ôl i'r tîm gwerthu fel bonysau bob blwyddyn dim ond os yw'r elw'n fwy na 105% o'i werthiannau targed (elw=gwerthiannau blyneddol – gwerthiannau targed).

Dim ond y personau gwerthu sydd wedi cyrraedd neu ragori ar eu targedau ar gyfer y flwyddyn sy'n gymwys i dderbyn unrhyw fonws.

O dan bennawd y golofn Bonus @ 75%, ac yn unol â'r cyfansymiau presennol ar gyfer pob grŵp blwyddyn, crëwch fformiwla sy'n cyfrifo faint o elw sydd i'w *ddosbarthu* i'r tîm gwerthu ar gyfer y flwyddyn honno.

- 20 O dan bennawd y golofn Bonus @ 75% ac ar gyfer pob person gwerthu crëwch fformiwlâ a fydd yn pennu eu cymhwysedd i gael bonws sy'n dychwelyd o (sero) os nad yw'n gymwys a'u canran o'r elw os ydynt yn gymwys.

Ailadroddwch y fformiwlâu hyn am bob grŵp blwyddyn.

- 21 Sicrhewch fod y gwerthodd ariannol am Bonus @ 75% yn cael eu gosod ar yr arian cyfred lleol ac i ddau bwynt degol.
- 22 Defnyddiwch dulliau addas i wirio bod y gwerthoedd cywir wedi'u cyfrifo.

Addaswch unrhyw fformatio i sicrhau bod eich gwaith yn diwallu anghenion y cwmni a chadwch y daenlen.

Tasg C - Creu graff

- 1 Crëwch daflen waith newydd ar ddiwedd eich llyfr gwaith gyda'r enw **Graff**.
- 2 Gan ddefnyddio'r data a gynhwysir yn **Salesperson_Sales** crëwch graff bar sy'n dangos cyfanswm y gwerthiannau ar gyfer pob person gwerthu dros Flynyddoedd 1 i 3 yn unig.

(Os oes angen, copiïwch unrhyw ddata sy'n ofynnol i'r daflen waith hon neu drwy unrhyw dull addas arall fel siartiau colyn.).

- 3 Ychwanegwch allwedd cyfres ac unrhyw welliant(welliannau) eraill sydd ar gael i wella'r dyluniad.

Sicrhewch fod y graff yn dangos enw'r person gwerthu.

- 4 Ychwanegwch y teitl **HESTON AUTOMOBILES** i'r graff.
- 5 Sicrhewch fod yr holl werthoedd yn dangos yr arian cyfred lleol.
- 6 Gwnewch unrhyw addasiadau i'r graff i gynorthwyo darllenadwyedd, gwiriwch y graff am gywirdeb ac arbedwch eich gwaith.

Tasg Ch – Creu cyfrifydd benthyciad

- 1 Crëwch daflen waith newydd ar ddiwedd eich llyfr gwaith/taenlen gyda'r enw **Benthyciad**.
- 2 Gan ddefnyddio fformiwla addas, crëwch fformiwla/ffwythiant a fydd yn cyfrifo ad-daliadau misol.
- 3 Defnyddiwch y gwerthoedd cychwynnol canlynol ar gyfer eich gosodiad:
 - Benthyciad - 100,000
 - Cyfradd llog – 6%
 - Cyfnod benthyciad – 5 mlynedd.
- 4 Gosodwch yr holl werthoedd ariannol i arian cyfred lleol a **dau** le degol, gosodwch ganrannau i arddangos **dau** le degol a defnyddiwch destun gwybodaeth i helpu i arwain y defnyddiwr i'ch penawdau rhes.
- 5 Gwiriwch y daflen waith am gywirdeb, a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Cadwch eich gwaith a chaewch y cymhwysiad.

Ar ôl i chi orffen gweithio:

- Llofnodwch bob dogfen uwchben eich enw a labelwch bob cyfrwng storio symudol â'ch enw.
- Rhowch yr holl waith papur a'r cyfryngau storio symudol i'ch asesydd.

Os yw'r aseiniad wedi'i wneud dros fwy nag un cyfnod, rhaid dychwelyd yr holl waith papur a'r cyfryngau symudol i arolygydd y prawf ar ddiwedd pob sesiwn.

Diwedd yr aseiniad

Lefel 3 Meddalwedd taenlenni (7513-337)
Ffurflen adborth ymgeisydd

Aseiniad

Enw'r ymgeisydd

Dyddiad

Adborth asesydd/tiwtor i'r ymgeisydd ar ganlyniad asesiad

Dyddiad targed a chynllun gweithredu i ailgyflwyno (os yw'n berthnasol)

Adborth asesydd/tiwtor i'r ymgeisydd ar ganlyniad ailgyflwyno

Llofnod yr Ymgeisydd

Dyddiad

Llofnod tiwtor/asesydd

Dyddiad

Adroddiad adborth aseiniad Asesydd

Enw'r ganolfan: _____

Rhif y ganolfan: _____

Enw'r asesydd: _____

Dyddiad: _____

Teitl Aseiniad Teitl/Rhif Elfen: _____

Diolch i chi am gyflwyno'r aseiniad. Er mwyn ein helpu i sicrhau bod ein haseiniadau o'r safon uchaf, yn berthnasol ac yn bodloni eich disgwyliadau, hoffem i chi gwblhau'r 'Adroddiad adborth aseiniad' hwn a'i ddychwelyd i City & Guilds.

Rhowch gylch o amgylch yr atebion yr ydych yn credu sy'n gywir:

Enghraifft = ie na

1. Pa mor hir gymerodd hi i chi baratoi i ddefnyddio'r aseiniad?

Llai nag 1 awr.

Rhwng 1 a 2 awr

Mwy na 2 awr

2. Pa mor anodd oedd yr aseiniad i'w ddefnyddio?

Hawdd

Ddim yn rhy anodd

Anodd

3. A deimloch chi fod y meini prawf marcio:

a. yn hawdd ei ddeall?

Do

na

b. yn hawdd ei ddefnyddio?

Do

na

c. wedi'i gyflwyno'n dda?

Do

na

4. Oedd hi'n anodd cadw cofnodion?

oedd

na

os oedd, pam oedd yn anodd?

5. Ydych chi'n teimlo bod arddull yr aseiniad yn iawn ar gyfer yr uned hon? ydw / na

Os 'na', beth allai fod yn well? _____

6. A oedd yr aseiniad yn cwmpasu cynnwys yr uned?

Yn rhannol

Yn llwyr

Roedd pethau o'r tu allan i'r uned

7. Dyfarnwch farc allan o 10 am ba mor hawdd oedd yr aseiniad i'w ddeall.

8. Dyfarnwch farc allan o 10 am ba mor hawdd oedd yr aseiniad i'w ddefnyddio fel asesydd.

Ysgrifennwch unrhyw sylwadau ychwanegol ar y dudalen nesaf.

Diolch. Dychwelwch yr holiadur hwn at City & Guilds, 1 Giltspur St, Llundain, EC1A 9DD

Sylwadau ychwanegol:

Wedi'i weithredu (defnydd staff yn unig):

Enw: _____ **Llofnod** _____ **Dyddiad**

City & Guilds
Credwch yn eich gallu



www.cityandguilds.com

Cysylltiadau defnyddiol

Dysgwyr y DU

Gwybodaeth gyffredinol am gymwysterau

E-bost:

learnersupport@cityandguilds.com

Dysgwyr rhyngwladol

Gwybodaeth gyffredinol am gymwysterau

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

E-bost: intcg@cityandguilds.com

Canolfannau

Cofnodion arholiadau, Cofrestriadau/ymrestru, Tystysgrifau, Anfonebau, Deunyddiau arholiad coll neu hwyr, Adroddiadau cofrestr enwol, Canlyniadau

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

E-bost: centresupport@cityandguilds.com

Cymwysterau pwnc sengl

Cofnodion arholiadau, Canlyniadau, Ardystio, Deunyddiau arholiad coll neu hwyr, papurau arholiad anghywir, Cais am ffurflenni (BB, cofnodi canlyniadau), Newid dyddiad ac amser arholiad

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

Ffacs: +44 (0)20 7294 2404 (ffurflenni BB)

E-bost: singlesubjects@cityandguilds.com

Dyfarniadau rhyngwladol

Canlyniadau, Ceisiadau, Cofrestriadau, Anfonebau, Deunyddiau arholiad coll neu hwyr, Adroddiadau cofrestr enwol

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

E-bost: intops@cityandguilds.com

Walled Garden

Ail-gyhoeddi cyfrinair neu enw defnyddiwr, Problemau technegol, Cofnodion, Canlyniadau, GOLLA, Llywio, Opsiwn Defnyddiwr/ dewislen, Problemau

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

E-bost: walledgarden@cityandguilds.com

Cyflogwyr

Atebion cyflogwyr, Mapio, Achredu, Sgiliau Datblygu, Ymgynghoriaeth

Ffôn: +44 (0)121 503 8993

E-bost: business_unit@cityandguilds.com

Cyhoeddiadau

Llyfrau log, dogfennau Canolfan, Ffurflenni, Llenyddiaeth am ddim

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

Os oes gennych gŵyn neu unrhyw awgrym i wella unrhyw un o'r gwasanaethau mae City & Guilds yn eu darparu, e-bostiwch: feedbackandcomplaints@cityandguilds.com

Cyhoeddwyd gan City & Guilds
1 Giltspur Street
Llundain
EC1A 9DD
Ffacs +44 (0)20 7294 2413
www.cityandguilds.com

Mae City & Guilds yn elusen
gofrestredig
sefydlwyd i hyrwyddo addysg a
hyfforddiant